



Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Uned 002 Egwyddorion a
gwerthoedd iechyd a gofal
cymdeithasol
(plant a phobl ifanc)

Deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer

Cyflwyniad

Mae nifer o egwyddorion allweddol yn ategu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y rhain yw:

- Mae'r plentyn/person ifanc wrth wraidd popeth a wnawn.
- Dylai gwasanaethau gael eu dylunio yn seiliedig ar ei anghenion unigol.
- Dylai gweithwyr proffesiynol gydweithio â'r plentyn/person ifanc er mwyn diwallu ei anghenion.
- Mae llesiant a diogelwch y plentyn/person ifanc yn hollbwysig.
- Mae'n rhaid i wasanaethau hybu amrywiaeth, annibyniaeth, dewis, hunaniaeth a diogelwch a grymuso'r unigolyn bob amser.



Sut mae deddfwriaeth a pholisiau cenedlaethol yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc

- Mae deddfwriaeth a Chodau Ymarfer wedi cael eu datblygu er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn ategu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu.
- Mae'r deddfwriaeth hon a'r Codau yn dweud wrth weithwyr sut y dylent gefnogi y plentyn/person ifanc a sut y dylid cynllunio gwasanaethau a dylent ategu popeth a wnawn.
- Mae sawl darn o deddfwriaeth a Chodau perthnasol y byddwn yn eu hastudio. Y deddfwriaeth allweddol yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.




Egwyddorion a gwerthoedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Newidiodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal eraill awdurdodau lleol yn cydweithio mewn partneriaeth i helpu a chefnogi unigolion.

Mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau bod unigolion yn mwynhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau, cymaint ag ydynt yn dewis ac yn gallu neud. Mae'r Ddeddf yn dwyn ynghyd ac yn moderneiddio gwahanol ddarnau o gyfraith gofal cymdeithasol presennol.

Mae'r fframwaith cyfreithiol newydd hwn yn cynnwys tair elfen:

- y Ddeddf
- y rheoliadau, sy'n rhoi mwy o fanylion am ofynion y Ddeddf
- y codau ymarfer, sy'n rhoi arweiniad ymarferol ynghylch sut y dylai gael ei rhoi ar waith mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.



Mae'r Ddeddf yn gymwys i:

- oedolion – unigolion 18 oed neu drosodd
- plant – unigolion o dan 18 oed
- gofalwyr – oedolion neu blant sy'n darparu gofal a chymorth.

Mae'r Ddeddf mewn 11 rhan, gan gynnwys pum egwyddor, ac mae'n nodi'n glir yr unigolion mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt.

Mae egwyddorion neu werthoedd y Ddeddf yn bwysig am eu bod yn effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau, a sut rydym yn gweithio gydag unigolion ac yn eu chefnogi.



Darllen pellach

<http://bit.ly/2X7Udvr>

Gweithgaredd 1

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd canlynol:

- Llais a rheolaeth, sy'n golygu rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal a'i gymorth, fel bod ganddynt lais a rheolaeth dros y canlyniadau a wnaiff helpu i ddiwallu ei anghenion.
- Ataliad ac ymyrryd yn gynnar sy'n golygu annog unigolion i ofyn am help neu gefnogaeth pan fo angen hynny arnynt, nid pan ei bod yn rhy hwyr efallai.
- Mae llesiant yn nodi sut i helpu unigolion i sicrhau llesiant ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys yr holl wasanaethau perthnasol yn cydweithio i gefnogi iechyd a llesiant unigolyn, er enghraifft.
- Mae a wnelo cydgynhyrchu â gweithio gydag unigolion, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u ffrindiau i nodi a diwallu eu hanghenion cymorth.



Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac Eiriolaeth

- Mae gan blant/pobl ifanc yr hawl i gael eu cefnogi i fynegi eu hanghenion, eu safbwyntiau a'u dymuniadau a gallu cymryd rhan lawn yn y broses asesu a chynllunio ac yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Hefyd, mae gan blant/pobl ifanc yr hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol am ddim os ydynt yn cael anhawster i fynegi eu barn, eu hanghenion, eu dymuniadau a'u hoff ddewisiadau.
- Mae gan weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ran allweddol i'w chwarae wrth gefnogi pobl ifanc i gael llais. Maent hefyd yn gyfrifol am achub cam plant a phobl ifanc a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu, a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu hystyried.
- Gellir darparu eiriolaeth ar lefelau gwahanol, megis gan rywun y mae'r plentyn yn ei ddewis, ei deulu, ei berthynas, ei gyfaill, ei athro neu ei ofalwr. Fodd bynnag, fe all fod adegau pan na fydd y gefnogaeth hon ar gael neu'n briodol neu os bydd gwrthdaro buddiannau wrth iddynt weithredu fel eiriolwr a bod angen eiriolwr proffesiynol annibynnol ar y plentyn i'w alluogi i gymryd rhan yn y broses.



Egwyddorion a gwerthoedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal o dan y Ddeddf

Mae dyletswydd ar y gwasanaethau cymdeithasol i benodi ymwelydd annibynnol i ddiwallu anghenion y plentyn. Rhaid iddyn nhw sicrhau:

- bod eu llesiant yn parhau i gael ei ddiogelu a'i hybu
- eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi
- eu bod yn derbyn cyngor neu wybodaeth os oes angen
- eu bod yn ymgysylltu â'r plentyn am ei obeithion a'i ddyheadau
- y caiff nodau a chanlyniadau personol eu gwirio
- bod cefnogaeth neu wasanaethau ychwanegol yn cael eu nodi os oes angen.



Gweithgaredd 2

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Egwyddorion a gwerthoedd Y Ddeddf Plant (1989 a 2004)

Mae Deddf Plant (1989 a 2004) yn cynnig fframwaith ar gyfer gofalu am blant a'u hamddiffyn, gan ganolbwyntio ar les plant hyd at pan fyddant yn 18 oed. Mae'n crynhoi cyfrifoldeb rhiant neu ofalwr ac yn annog gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr. Mae'n canolbwyntio ar roi plant a phobl ifanc wrth wraidd cynllunio a gwneud penderfyniadau drwy gyd-gynhyrchu arferion gweithredu mewn ffordd plentyn-ganolog.

Dyma brif egwyddorion y Ddeddf:

- lles y plentyn yw'r brif ffocws
- lle bynnag y bo modd, dylai plant gael eu magu a'u gofalu amdanynt gan eu teuluoedd eu hunain
- dylid cefnogi rhieni / gofalwyr sydd â phlant mewn angen i fagu eu plant eu hunain. Dylai'r cymorth hwn:
 - gael ei ddarparu mewn partneriaeth
 - diwallu anghenion penodol pob plentyn
 - bod yn briodol i hil, diwylliant, crefydd ac iaith y plentyn
 - bod yn agored i gynrychiolaethau a gweithdrefnau cwyno annibynnol effeithiol
 - defnyddio partneriaethau presennol rhwng yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol.



Ewch i'r linc isod i ddarganfod mwy o wybodaeth am Y Ddeddf Plant (1989 a 2004)

 Darllen pellach

<https://bit.ly/2I3Ebhv>

Deddfwriaeth allweddol

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y dylai pawb yn y DU fod yn eu cael. Mae'r Ddeddf yn ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith ddomestig Prydain.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn gytundeb cyfreithiol rhyngwladol, sy'n bodoli i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol unigolion anabl.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990 yn gytundeb hawliau dynol sy'n rhoi set gynhwysfawr o hawliau i blant a phobl ifanc (17 oed ac iau), beth bynnag eu hil, crefydd neu allu.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mae saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn crynhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn ffurfio sail ar gyfer penderfyniadau am flaenoriaethau ac amcanion cenedlaethol. Dylent hefyd ffurfio sail ar gyfer penderfyniadau ar strategaeth a darpariaeth gwasanaethau lleol.



Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, gan gyflwyno safonau i egluro sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i unigolion ei defnyddio yn eu bywydau beunyddiol.

Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013) yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau Cymraeg i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'u teuluoedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer wedi'u datblygu dros amser i gefnogi hawliau pawb.

Gweithgaredd 3

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

Mae Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn nodi safonau a chanllawiau ar gyfer pob gweithiwr gofal proffesiynol.

Yng Nghymru, y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol (Cod Cyflogwyr) sy'n pennu safonau cyflogwyr. Mae canllawiau ymarfer yn rhoi canllawiau i weithwyr cofrestredig sy'n gysylltiedig â'u rôl. Ymhlith y codau eraill mae Cod Ymddygiad GIG Cymru i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru a chanllawiau ymarfer fel Canllawiau Ymarfer Gofal Preswyl i Blant ar gyfer Gweithwyr sydd wedi Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.



Mae Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn cynnwys rhestr o ddatganiadau sy'n disgrifio'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sydd eu hangen ar weithwyr yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cod yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o'r safonau hyn. Bwriedir iddo roi canllaw i weithwyr, unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a rheolwyr gwasanaethau.

O ran unigolion sy'n derbyn gofal, bydd y Cod yn gwneud yr unigolion yn ymwybodol o sut y dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ymddwyn tuag atynt, ynghyd â rôl cyflogwyr wrth helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i wneud eu gwaith yn dda.

Disgwylir i gyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol hyrwyddo'r defnydd o'r Cod a'i ystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau am ymddygiad ac ymarfer staff.

Gweithgaredd 4

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Deddf Plant (1989 a 2004) a Chefnogi Arferion

Caiff plant a phobl ifanc reolaeth lawn wrth benderfynu ar y cymorth sydd ei angen arnynt, ac wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth fe'u hystyrir yn bartner cyfartal. Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio eiriolwr proffesiynol annibynnol i'w helpu i chwarae rhan lawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu. Hefyd, cant ddefnyddio eiriolwr proffesiynol annibynnol am ddim os ydynt yn ei chael hi'n anodd mynegi barn, anghenion a dymuniadau.

Felly, fel gofawr sy'n cydweithio gyda plentyn neu berson ifanc, fe wnaiff hyn amharu ar y rôl am fod angen i ofal gael ei deilwra i'r unigolyn bellach, drwy gydweithio â nhw, a all olygu cael cymorth eiriolwr.

Mae eiriolwr yn cynnig cymorth annibynnol i unigolion na chânt eu clywed efallai, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymryd o ddifri a bod eu hawliau yn cael eu parchu. Mae eiriolwyr hefyd yn helpu unigolion i gael gwybodaeth a gwasanaethau priodol, a'u deall.

Mae'n bwysig sicrhau bod cyngor a chymorth amserol ar gael i blant a phobl ifanc er mwyn atal pethau rhag mynd o ddrwg i waeth. Mae cynnig help ar gam cynnar yn hanfodol oherwydd gall leihau neu oedi'r angen am ofal a chymorth tymor hwy.

Gweithgaredd 5

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Cod Ymarfer i Gyflogwyr GIG Cymru a'r Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Ategir y Cod Ymarfer i Gyflogwyr GIG Cymru gan God Ymddygiad i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd, sy'n disgrifio'r safonau mae'n rhaid i weithwyr eu dilyn a'u cyrraedd. Dylai cyflogwyr fod yn gydymdeimladol a gweithredu'r Cod Ymddygiad a sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i gyrraedd y safonau.

Mae'r ddau God yn cefnogi egwyddorion sylfaenol diogelwch ac amddiffyn y cyhoedd, a rhaid iddynt ategu arferion gwaith dyddiol GIG Cymru ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Bydd angen i gyflogwyr weithredu systemau a phrosesau i gefnogi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gyrraedd y safonau yn y Cod Ymddygiad. Mae angen i gyflogwyr hefyd ddefnyddio'r gweithle i ddatblygu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd drwy gynnig amodau gwaith mwy boddhaus sy'n helpu staff i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol, wrth eu paratoi i gamu ymlaen i rolau newydd a mwy heriol yn y dyfodol.

Mae Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn cynnwys saith adran.

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n hanfodol eich bod yn:

1. Parchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo lles, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.
4. Parchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill ar yr un pryd.
5. Gweithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1 - 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Cod yn rhan annatod o'u gwaith.



Darllen pellach

<https://bit.ly/2DzteR8>

Cod Ymddygiad GIG Cymru i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd yng Nghymru

Mae Cod Ymddygiad GIG Cymru i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd yng Nghymru yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd a gyflogir gan GIG Cymru o ran safonau ymddygiad ac agweddau disgwyliedig yn y gwaith. Mae'r Cod yn gymwys i bob Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a gyflogir mewn amgylcheddau clinigol ac anghlinigol yn y GIG, ac fe'i defnyddir mewn cyfeiriadau disgrifiadau swydd.

Mae'r Cod yn rhoi hyder a thawelwch meddwl drwy fframwaith amddiffyn y cyhoedd sy'n cynnwys darparu cymorth ac arweiniad i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd o ran eu hymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn deall pa safonau ymddygiad mae cyflogwyr, cydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn disgwyl ganddynt.

Mae'r Cod yn nodi safonau, fel y gall Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd fod yn siŵr pa safonau mae disgwyl iddynt eu cyrraedd. Dylai Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ddefnyddio'r Cod i roi sicrwydd iddynt eu hunain eu bod yn cyrraedd y safon ac, os nad ydynt, newid eu ffordd o weithio.

Gall Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ddefnyddio'r Cod i adolygu eu hymarfer a nodi meysydd datblygu personol posibl. Mae'r Cod yn helpu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i fodloni gofynion eu rôl, ymddwyn yn briodol a dilyn dyletswydd gofal ac arfer da drwy'r amser. Mae hyn yn hanfodol er mwyn amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd ac eraill rhag niwed a cham-drin.



Cod Ymddygiad GIG Cymru i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd yng Nghymru

Mae Cod Ymddygiad i Weithwyr Cynnal Gofal Iechyd yng Nghymru yn nodi y dylai gweithwyr:

- Fod yn atebol trwy sicrhau bob amser y gallent ateb dros eu gweithredoedd neu'u hanweithiau.
- Hybu a chynnal preifatrwydd, urddas, hawliau a llesiant defnyddwyr gwasanaethau a'u cynhalwyr bob amser.
- Gweithio mewn cydweithrediad â'u cydweithwyr fel rhan o dîm i sicrhau bod gofal diogel a safonol yn cael ei ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.
- Cyfathrebu mewn modd agored, tryloyw ac effeithiol er mwyn hybu llesiant defnyddwyr gwasanaethau a'u cynhalwyr.
- Parchu hawl pob person i gyfrinachedd gan amddiffyn a chynnal ei breifatrwydd.
- Gwella ansawdd gofal defnyddwyr gwasanaethau trwy ddiweddarau eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad trwy ddatblygiad personol a phroffesiynol.
- Gyda golwg ar hybu cydraddoldeb mae'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn haeddu cael eu trin yn deg ac yn ddi-duedd.



Darllen pellach

<https://bit.ly/2veS5Zo>

Canllawiau Ymarfer Gofal Preswyl i Blant ar gyfer Gweithwyr sydd wedi Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r Canllawiau Ymarfer Gofal Preswyl i Blant ar gyfer Gweithwyr sydd wedi Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan weithwyr er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel mewn perthynas â gofal preswyl i blant.

Gall y canllawiau hefyd gael eu defnyddio gan gyflogwyr i asesu p'un a oes trefniadau ar waith ganddynt i sicrhau bod gwasanaeth proffesiynol a diogel yn cael ei ddarparu drwy'r amser.

Mae'r canllawiau yn cwmpasu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn, arfer da gofal preswyl i blant, diogelu unigolion, iechyd a diogelwch, datblygiad proffesiynol, diwylliant dysgu a chyfrannu at ddatblygiad pobl eraill a chyfrannu at y gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon. Mae'r canllawiau yn adeiladu ar 'Cod Ymarfer Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol', a gallai methu â dilyn y canllawiau beryglu cofrestriad gweithwyr.



Darllen pellach

<https://bit.ly/2nvVPI2>

Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl safonau'r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Rhaid i weithwyr sicrhau bod eu hymddygiad a'u hymarfer yn cyrraedd y safonau, ac nad oes unrhyw weithred na diffyg gweithredu ar eu rhan yn peryglu diogelwch na llesiant plant a phobl ifanc.

Darperir y Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol feini prawf i lywio ymarfer gweithwyr, a chynnig eglurder ynghylch y safonau ymddygiad mae disgwyl iddynt eu cyrraedd. Anogir gweithwyr i ddefnyddio'r canllawiau hyn i archwilio a myfyrio ar eu hymddygiad a'u hymarfer eu hunain, a nodi meysydd lle gallant wella.



Gweithgaredd 6

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Elfennau allweddol dull gweithredu seiliedig ar hawliau

Beth yw dull gweithredu seiliedig ar hawliau?

- O ran darparu dull sy'n seiliedig ar hawliau, yn sail i hyn mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth ynglŷn â sut y dylai gweithwyr fod yn darparu gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru.
- Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn sicrhau bod pob plentyn/ person ifanc yn cael eu cefnogi yn gyfannol yn y tymor byr a'r tymor hir. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau a chydgyhyrchu, mae'n sicrhau bod hawliau unigolion i iechyd a llesiant yn cael eu cyrraedd a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.



Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn golygu darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd wrth wraidd pob agwedd ar y gwaith o gynllunio gwasanaethau, polisïau ac ymarfer. Er enghraifft, disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol drin pob plentyn a pherson ifanc fel unigolyn, parchu a hyrwyddo eu barn a'u dymuniadau a chefnogi eu hawl i reoli eu bywydau eu hunain a gwneud dewisiadau yn seiliedig ar wybodaeth. Mae'n ffordd o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc, ac nid dim ond ei anghenion iechyd neu ofal. Mae gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau ac yn cwmpasu holl ofal y plentyn neu'r person ifanc. Yr unigolyn sydd wrth wraidd ei ofal, felly rhaid ymgynghori ag ef a rhaid rhoi ei farn yn gyntaf bob amser.

Hawliau dynol

- Dewis
- Cyfrinachedd
- Diogelwch
- Cydraddoldeb
- Ymgynghoriad.

Sut y gallwn sicrhau dull gweithredu seiliedig ar hawliau?

- Yn aml, bydd gofalwyr yn cefnogi plant neu bobl ifanc pan fyddant mewn sefyllfa fregus. Mae ansawdd y gofal a roddir yn dibynnu ar y ffordd y gall gofalwyr gefnogi a diwallu anghenion yr unigolyn yn effeithiol, gan feddu ar wybodaeth gadarn am yr unigolyn a'i ofynion.
- Bydd cynllun gofal a chymorth, sy'n seiliedig ar ddull gweithredu, yn helpu i wahaniaethu ar y gofal a'r cefnogaeth y bydd pob plentyn neu berson ifanc yn ei dderbyn. Mae gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu ystyried mai'r unigolyn a gefnogir sydd bwysicaf. Mae angen i ofalwyr ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r unigolyn, nid darparu'r un gofal i bawb.



Gweithgaredd 7

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn sail i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau

Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sy'n sail i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau

Mae peidio â helpu plentyn neu berson ifanc i wneud dewisiadau neu sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu yn anghyfiawnder sy'n arwain at effeithiau dinistriol.

Yn y DU, mae nifer o ddeddfau, rheolau, rheoliadau, polisïau, dogfennau canllaw a chodau ymarfer statudol ar waith, ac mae pob un ohonynt yn hyrwyddo amrywiaeth, yn sicrhau cydraddoldeb ac yn rhoi terfyn ar wahaniaethu. Mae'r rhain ar waith er mwyn hyrwyddo hawl pawb i gael eu trin yn deg ac yn gyfartal, ni waeth beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Er enghraifft, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cwmpasu llawer o wahanol fathau o wahaniaethu, gan gynnwys rhai na chânt eu cwmpasu gan ddeddfau eraill mewn perthynas â gwahaniaethu. Dim ond yn erbyn awdurdod cyhoeddus y gellir defnyddio hawliau o dan y Ddeddf, er enghraifft, yr heddlu neu gyngor lleol, ac nid cwmni preifat. Fodd bynnag, rhaid i benderfyniadau llysoedd ynghylch gwahaniaethu fel arfer ystyried yr hyn y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei ddweud.

Er mwyn gwneud Prydain yn decach ac atgyfnerthu deddfau gwrthwahaniaethu, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi canllawiau ymarferol dealladwy i gyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a chyrrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod hawliau i driniaeth deg yn cael eu hyrwyddo i bawb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cwmpasu deddfau eraill sy'n ceisio hyrwyddo tegwch a chydaddoldeb yn ogystal a cheisio atal gwahaniaethu.



Gweithredu deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn ymwneud ag iechyd a gofal

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau eu bod yn dilyn trefn sy'n atal gwahaniaethu yn eu rôl wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r gweithwyr yn gyfrifol am yr unigolion y maent yn gofalu amdanynt, gan wneud y penderfyniadau gorau drostynt ac amddiffyn eu hawliau.

Gallai dull gweithredu seiliedig ar hawliau gynnwys parchu dewisiadau crefyddol a diwylliannol, gan gefnogi'r unigolyn a rhoi'r cyfle a'r hawl iddynt eu hymarfer.

Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae'n ddull gwydn sy'n gwrthsefyll newid cymdeithasol.

Mae'n golygu sicrhau bod CCUHP yn greiddiol i brofiad plentyn o addysg ac yn ganolog i gynllunio, addysgu, gwneud penderfyniadau, polisïau ac ymarfer yn yr ysgol.



Darllen pellach

<https://bit.ly/2W8KaVy>

Gweithgaredd 8

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sut mae deddfwriaeth yn effeithio ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau yn ymarferol

Dull gweithredu seiliedig ar hawliau

Rhaid i weithwyr anelu at sicrhau eu bod yn dilyn dull gweithredu cynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau. Mewn geiriau eraill, rhaid i'w hymarfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, peidio â gwahaniaethu, a dangos parch at gredoau, dewisiadau, diwylliannau, gwerthoedd a hoffterau.

Mae'n bwysig bod gweithwyr yn ymwybodol o'u hagweddau eu hunain a sut y gallant effeithio ar eu gwaith. Er enghraifft, os bydd y ffaith eu bod yn labelu neu'n stereoteipio plentyn neu berson ifanc, neu'n eu

rhagfarnu'n negyddol, yn effeithio ar y ffordd y byddant yn rhyngweithio â nhw, mae'n debygol y cânt eu cyhuddo o wahaniaethu. Os ydynt yn gwneud yr holl ddewisiadau ar ran yr unigolyn, nid ydynt yn darparu gwasanaeth seiliedig ar hawliau.

Rhaid i weithwyr gadw eu rhagfarnau iddynt eu hunain a chynnal agwedd gadarnhaol at bawb, ni waeth beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt. Dylai gweithwyr ddangos parch bob amser a dangos i unigolion eu bod yn eu gwerthfawrogi oherwydd pwy ydyn nhw.



Mae angen i weithwyr feithrin cydberthynas waith gadarnhaol gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hyn yn sicrhau bod pob gofalwr sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw yn gwbl ymwybodol o'i gredoau, ei ddewisiadau, ei anghenion a'i werthoedd. Bydd y dull gweithredu cydweithredol hwn yn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn gofal mewn ffordd gyson.

Drwy ddeall yn well pam mae unigolion yn meddwl ac yn ymddwyn fel y maent, bydd modd i weithwyr eu cefnogi'n briodol wrth arfer eu hawliau a diwallu eu hanghenion.

Dylai gweithwyr allu rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn ymarferol er mwyn diwallu anghenion unigolion, gan gynnal eu hawl i ofal a chymorth teg sydd wedi'u teilwra. Drwy ddilyn deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol, gall tîm gydweithio, ochr yn ochr â sefydliadau eraill, i sicrhau bod anghenion unigol pob unigolyn yn cael eu diwallu.

Gweithgaredd 9

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Eiriolaeth a sut y gall gefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau

Rôl eiriolaeth

Nid oes gan lawer o blant neu bobl ifanc y gallu i sicrhau bod eu lleisiau eu hunain yn cael eu clywed, efallai fod ofn arnynt neu ddiffyg hyder i leisio eu barn; efallai eu bod yn sâl, wedi drysu, neu'n methu â chyfathrebu'n effeithiol; ac, yn syml, nid yw llawer o unigolion yn ymwybodol o'u hawliau.

Gall eiriolwyr fod yn werthfawr o ran grymuso unigolion i allu mynegi eu hunain drwy eu cefnogi neu weithredu ar eu rhan gyda'u cydsyniad.

Eiriolaeth yw'r broses o leisio barn ynghylch mater sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc. Gall hyn naill ai fod ar ffurf hunaneiriolaeth, lle y bydd yr unigolyn yn siarad drosto ei hun, neu eiriolaeth dinesydd, lle y bydd gwirfoddolwr o grŵp eiriolaeth lleol yn siarad ar ran yr unigolyn. Gall fod yn athro/athrawes neu rhywun sy'n bwysig iddynt.

Oherwydd natur gymhleth a sensitif rhai materion, byddai eiriolwyr yn cael eu defnyddio mewn cymhwyster proffesiynol, er enghraifft cyfreithiwr neu ymgynghorydd hawliau lles. Nid yw'r math hwn o eiriolaeth yn cymryd lle eiriolaeth dinesydd neu hunaneiriolaeth, ond yn hytrach yn gweithio ochr yn ochr â nhw, megis ble bydd plentyn neu berson ifanc eisiau byw, neu gyda phwy.



Gweithgaredd 10

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Pryd y gall eiriolwr helpu

Mae angen i weithwyr proffesiynol, sefydliadau a hyd yn oed gofalwyr teulu gydnabod rôl a gwaith eiriolwr o ran rhoi cymorth annibynnol i unigolion. Gall unigolyn fod yn byw mewn lleoliad gofal neu leoliad â chymorth, neu gyda'i deulu, a gall gael eiriolwr o hyd.

Ym mhob achos, mae'r gydberthynas rhwng yr unigolyn a'i bartner eirioli yn gyfrinachol. Gall partneriaethau o'r fath dyfu'n gyfeillgarwch hirdymor sy'n helpu i gefnogi a diogelu unigolion a'u diddordebau, yn enwedig os ydynt yn byw mewn lleoliad gofal hirdymor. Mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn cyfrannu at gefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau drwy sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed, ni waeth beth yw ei anghenion neu alluoedd cyfathrebu.



Gofynnwch i ffrind neu berthynas hŷn ym mha ffordd y maen nhw yn credu bod ei anghenion a'i alluoedd wedi newid dros y blynyddoedd. A oes angen mwy neu lai o gefnogaeth neu gymorth arno? A fyddai eiriolwr yn ei helpu?


Cefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i wneud cwyn neu fynegi pryder

Cwynion a phryderon

Rhaid i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, fel unrhyw weithle arall, allu addasu, ac mae'n hollbwysig sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o system gadarn ar gyfer delio â chwynion a phryderon ac yn gallu ei defnyddio.

Ystyr cwyn yw mynegiad o anfodlonrwydd â gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu gweithwyr, neu safon y gwasanaeth a ddarparwyd. Gall cwyn ymwneud ag un o'r canlynol:

- gweithred neu ddiffyg gweithredu gan y sefydliad sy'n effeithio ar y plentyn neu berson ifanc neu grŵp
- honiad bod y sefydliad wedi methu â dilyn gweithdrefnau priodol
- honiad bod oedi annerbyniol wedi bod wrth ddelio â mater neu y ffordd y mae plentyn neu berson ifanc wedi cael eu trin gan aelod o staff.



Yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, ystyr cwyn yw mynegiad o anfodlonrwydd y mae angen ymchwilio ac ymateb iddo. Mae pryderon yn llai difrifol ac yn llai cyhuddgar, a gallent awgrymu sut y gellid gwella neu ddatrys mater.

Manteision cwynion a phryderon

Yn sicr, mae'n well atal cwynion a phryderon cyn iddynt godi yn hytrach na cheisio eu datrys wedyn. Bydd lleoliad trefnus sydd wedi rhoi gweithdrefnau cadarn ac effeithiol ar waith mewn perthynas ag amrywiaeth eang o ddisgwyliadau o ran darparu gwasanaethau a diogelwch yn cael llai o gwynion a phryderon.

Mae cyfathrebu'n dda â phlant a phobl ifanc yn sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gael, a dylai unigolion wybod bod ganddynt hawl i gwyno pan fyddant yn mynd i mewn i'r lleoliad ac yn ystod eu cyfnod yno.

Bydd polisïau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a darparu gofal i gyd yn helpu lleoliad i redeg yn esmwyth. Byddant hefyd yn golygu bod achosion o gamddeall neu anfodlonrwydd sy'n arwain at gwynion neu bryderon yn llai tebygol.



Gweithgaredd 11

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Helpu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i godi cwynion neu bryderon

Mae'n bwysig i weithwyr gofal ddeall gweithdrefn gwyno eu sefydliad, a'u rôl mewn perthynas â hyn, yn drylwyr. O bryd i'w gilydd, gallai fod yn briodol i'r gweithiwr gofal helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i gwyno neu godi pryder yn y lle cyntaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol o'r gweithdrefnau gwyno neu bryderon, neu os yw'r unigolyn, ei deulu neu ei ofalwyr dan anfantais oherwydd iaith neu anabledd.

Rhoddir cymorth er mwyn ceisio datrys cwynion a phryderon cyn gynted â phosibl, a gallai hyn fod drwy gynnig eiriolaeth neu gymorth i'r unigolyn os oes angen. Os oes modd, bydd angen i'r gweithiwr gofal lunio adroddiad clir yn nodi'r canlyniad a gwybodaeth am yr hyn y dylid ei wneud os nad yw'r unigolyn yn fodlon ar y canlyniad.

Mae gan bob unigolyn a'i deulu hawl i gwyno a chael cymorth i wneud hynny. Ni ddylai deimlo'n anghyfforddus wrth wneud hynny ac ni ddylai hyn effeithio ar y gofal a ddarperir iddo yn sgil codi'r mater. Caniatewch amser mewn man cyfrinachol i unigolyn a/neu ei deulu esbonio'r pryder dan sylw. Ysgrifennwch, air am air, yr hyn y mae'r mater yn ymwneud ag ef. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei hanfon at y person perthnasol yn y sefydliad, sicrhewch fod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn neu'r pryder a bod pawb yn cael gwybod beth yw'r canlyniadau.



Pwysigrwydd dulliau gweithredu plentyn-ganolog

Cyflwyniad

Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n hollbwysig i blant a phobl ifanc gael y gofal cywir i ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu dymuniadau a'u dewisiadau. Mae'n bwysig dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau y caiff anghenion eu diwallu. Dylai plant a phobl ifanc fod wrth wraidd y broses hon, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain. Gall gwaith cynllunio gofal da ac effeithiol sicrhau y caiff y meini prawf eu bodloni. Ni ddylai pecynnau gofal a chymorth byth gael eu creu er hwylustod na chyfleuster i weithwyr gofal. Dyma ble mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn berthnasol, oherwydd eu bod yn rhoi'r plentyn/person ifanc wrth wraidd pob gweithgaredd a gynhelir a phob penderfyniad a wneir.



Beth yw dulliau gweithredu plentyn-ganolog

Mae dull gweithredu plentyn-ganolog yn golygu gallu gwrandao ar blant neu bobl ifanc a'u cefnogi nhw i gyflawni eu dyheadau. Gall dulliau cyd-gynhyrchu, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, fod o gymorth i gefnogi plentyn/person ifanc i lwyddo.

Dylai dulliau gweithredu plentyn-ganolog gydnabod anghenion y plentyn/person ifanc a'u hamgylchiadau.

Bydd cydweithio a bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n bwysig i bob plentyn yn ogystal â'i barchu i lywio'r arferion gorau i'w cefnogi.

Rhaid ystyried credoau, gwerthoedd a dewisiadau wrth ddefnyddio dulliau gweithredu plentyn-ganolog i gynllunio ar gyfer diwallu anghenion unigolyn.



Y termau ‘cydgynhyrchiad’ a ‘llais, dewis a rheolaeth’

Beth yw ‘cydgynhyrchiad’?

Dull gweithredu yw lle y bydd gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i gynllunio eu gofal gan sicrhau eu bod yn wneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn y broses, a chydabod bod gan y naill a'r llall gyfraniadau hollbwysig i'w gwneud er mwyn gwella ansawdd bywyd yr unigolyn yw cydgynhyrchu.

Ysgogir cyd-gynhyrchu gan werthoedd ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor mai'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth sydd yn y sefyllfa orau i helpu i'w gynllunio.



Beth yw 'llais, dewis a rheolaeth'?

Mae rhoi llais i blant neu bobl ifanc sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n golygu rhywbeth iddynt yn hynod o bwysig. Os gwrandewir ar blant a phobl ifanc, bydd hyn yn sefydlu perthynas ryngpersonol gadarnhaol lle gall gweithwyr proffesiynol a'r unigolyn gynllunio, gweithredu yw a gwerthuso'r dewisiadau y mae'r unigolyn wedi'u gwneud.

Mae angen i farn a phrofiadau plant a phobl ifanc gael eu hystyried yn barhaus er mwyn iddynt gael 'dewis' a 'rheolaeth' mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae angen iddynt gael eu gweld fel unigolion a chael 'llais' i fynegi pwy ydyn nhw a beth maen nhw am ei gael.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael llais, dewis a rheolaeth, mae angen cydberthnasau ryngpersonol da rhwng unigolion, eu rhieni a gofalwyr a staff iechyd a gofal cymdeithasol, a rhwng y lleoliad a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.



Pwysigrwydd gwybod beth yw dewisiadau a chefnidir plentyn neu berson ifanc

Deall cefndir a'r hyn sy'n well gan y plentyn neu'r person ifanc

Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae cefndir plentyn neu berson ifanc yn ffactor pwysig i'w ystyried oherwydd gall bod yn ymwybodol o ffactorau economaidd gymdeithasol lywio'r ymarfer a helpu i deilwra'r gofal sydd ei angen.

Mae'n bwysig bod plant neu bobl ifanc wrth wraidd y broses cynllunio gofal, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain. Gall gwaith cynllunio gofal manwl ac effeithiol sicrhau bod eu holl anghenion, dymuniadau a dewisiadau'n cael eu bodloni, ac ni ddylid byth creu pecynnau gofal heb gynnwys yr unigolyn dan sylw.

Mae gallu diwallu anghenion cyfannol plant a phobl ifanc yn allweddol i sicrhau ein bod nid yn unig yn canolbwyntio ar un agwedd ar anghenion plentyn, ond yn sicrhau bod pob maes yn cael ei ystyried a bod cefnogaeth yn cael ei rhoi yn ei le ar gyfer beth bynnag yw'r anghenion.

Pwysigrwydd deall cefndir plentyn neu berson ifanc

Mae gweithredu mewn ffordd plentyn-ganolog yn golygu gwranddo ar unigolion a dysgu am yr hyn y maent am ei gael o'u bywydau, yr hyn a wnaethant a'r hyn y gwnaethant ei fwynhau yn y gorffennol, a'u helpu i feddwl am yr hyn y maent yn dymuno ei gael nawr ac yn y dyfodol.

Mae profiad, hanes, diwylliant, credoau, dewisiadau, teulu, cydberthynas, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned y plentyn neu'r person ifanc i gyd yn allweddol i ganfod ffordd ymlaen a diwallu ei anghenion er mwyn galluogi cynnydd cadarnhaol. Mae angen i aelodau o'r teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau gydweithio â'r unigolyn er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Ffyrdd o weithio i bennu dewisiadau a chefnidir plant a phobl ifanc

Sut i nodi dewisiadau a chefnidiroedd plant a phobl ifanc

Wrth asesu a chynllunio, mae'n hollbwysig mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n arwain y broses. Rhaid i weithwyr gofal proffesiynol gofio bod yr unigolyn wrth wraidd gwaith cynllunio gofal; ei gorff, ei anghysur, ei fywyd a'i ofal ei hun sydd dan sylw. Mae gwaith cynllunio gofal nad yw'n blentyn-ganolog yn ddiystyr ac yn annerbyniol. Nid yw'n dderbyniol darparu gofal y mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddwl sydd ei angen ar blentyn neu berson ifanc. Rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol werthfawrogi rôl unigolyn yn y broses hon – dyma'r arfer gorau. Mae'n hanfodol grymuso'r unigolyn yn ei ofal ei hun.



Wrth ganfod dewisiadau a chefnidiroedd unigolion, mae'n hollbwysig gofyn i'r plentyn neu'r person ifanc beth mae am ei gael a beth mae'n credu yw ei anghenion. Dylid osgoi cwestiynau arweiniol; er enghraifft, 'Mae dy drefniadau ar ôl ysgol yn diwallu dy anghenion i gyd yn llawn, onid ydyn nhw?' Gall hyn wneud i'r unigolyn gytuno er nad yw'n teimlo hynny mewn gwirionedd. Mae'n well defnyddio cwestiynau agored yn hytrach na rhai caeedig felly, yn lle gofyn 'Wyt ti'n hapus?', gellid aralleirio'r cwestiwn fel hyn, 'Dweda wrtha i sut rwyd ti'n teimlo ar hyn o bryd.'

Gweithgaredd 12

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sut i nodi'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc a'r canlyniadau y maent am eu cael

Dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gwrdd â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb. Dylent ddweud yn glir y bydd unrhyw beth a drafodir yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Bydd hyn yn tawelu meddwl yr unigolyn ei bod yn iawn datgelu unrhyw wybodaeth angenrheidiol.

Dylai trafodaethau fod yn syml. Ni fydd drysu unigolion ag acronymau, jargon a therminoleg dechnegol yn eu helpu i arwain yr asesiad. Fodd bynnag, dylai gweithwyr osgoi bod yn nawddoglyd ag unigolion drwy ddefnyddio iaith sy'n rhy syml. Mae'n bwysig taro cydbwysedd rhwng gwybodaeth glir a manwl.

Os bydd angen ailadrodd unrhyw beth, dylid gwneud hynny'n amyneddgar ac yn glir. Dylai gweithwyr gofal egluro a chrynhoi er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn deall popeth, a hefyd er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o gamgymeriadau.

Dylai pawb sydd wedi eu cynnwys yn y mater dderbyn copi o'r dogfennau perthnasol. Lle y bo'n bosibl, dylai dogfennau fod ar fformat y mae'r plentyn/person ifanc yn ei ddeall e.e. lluniau, fideo, ysgrifenedig. Mae angen i weithwyr sicrhau bod yr unigolyn yn deall y rhain ac yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt.



Trin pobl ag urddas a pharch

Beth mae trin plant a phobl ifanc ag urddas a pharch yn ei olygu?

Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ymddiried mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn rhoi eu ffydd ynddynt ac yn disgwyl cael eu diogelu.

Dylai gweithwyr bob amser drin plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yn y ffordd y byddent am gael eu trin eu hunain. Mae hyn yn berthnasol i bob rhan o'r gweithlu ac ym mhob lleoliad.

Rydym i gyd yn disgwyl cael ein trin ag urddas a pharch, ac nid yw unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn wahanol.

Mae ymddwyn ag urddas a pharch tuag at unigolion yn golygu parchu eu barn, eu dewisiadau a'u penderfyniadau, peidio â rhagdybio sut maent am gael eu trin, a gweithio mewn modd gofalgar a thosturiol.

Mae'r rheini sy'n derbyn gofal a chymorth yn gallu gwneud penderfyniadau am y gofal y maent yn eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn a'u hanghenion gofal beunyddiol. Os na all unigolion wneud, neu os na chânt eu cefnogi i wneud dewisiadau, ni chaiff eu hanghenion eu diwallu. Rhaid i weithwyr sicrhau eu bod yn ymddwyn ag urddas a pharch tuag at unigolion er mwyn sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu hystyried yn unigolion â'u hanghenion penodol eu hunain ac y gallant ymddiried y bydd eu hanghenion yn cael eu nodi, y bydd rhywun yn gwrandao arnynt ac y byddant yn cael eu diwallu.

Ffyrdd o weithio sy'n cefnogi dulliau gweithredu plentyn-ganolog

Dulliau gweithredu plentyn-ganolog

Dulliau gweithredu plentyn-ganolog yw'r egwyddorion arweiniol sy'n helpu i roi diddordebau'r plentyn sy'n derbyn gofal neu gymorth yn ganolog i bopeth a wnawn. Maen nhw'n cynnwys unigoliaeth, annibyniaeth, preifatrwydd, partneriaeth, dewis, urddas, parch a hawliau.

Mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn golygu gweithio mewn partneriaeth â'r plant a'r bobl ifanc a'u rhieni a/neu ofalwyr i gynllunio ar gyfer eu gofal a'u cymorth. Mae'r plentyn neu berson ifanc yn ganolog i'r broses cynllunio gofal a dylai fod â rheolaeth dros bob dewis a phenderfyniad sy'n cael ei wneud yn ei fywyd. Mae gwerthoedd tosturi, urddas a pharch yn bwysig wrth gynnwys plant yn eu gofal eu hunain. Dylai penderfyniadau fod yn benderfyniadau wedi'u rhannu, gan ystyried y plentyn yn bartner cyfartal yn ei ofal ei hun, yn hytrach na phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.



Mae cynllunio plentyn-ganolog yn golygu darganfod a gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r hyn sydd o bwys mawr iddyn nhw yn eu bywydau.

Gweithgaredd 13

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Nodweddion ffyrdd o weithio plentyn-ganolog

Gweithio gyda'r plentyn, ei rieni a'i ofalwyr i nodi cryfderau a galluoedd y plentyn fydd y ffordd orau o benderfynu ar ei les a'i helpu i wneud ei benderfyniadau ei hun. Er enghraifft, efallai bydd plentyn am wneud ei benderfyniadau ei hun am y gweithgareddau mae'n gallu ac eisiau cymryd rhan ynddyn nhw.

Y nod yw sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael cymaint o reolaeth â phosibl dros y dewisiadau maent yn eu gwneud. Mae'r cynllun gofal yn seiliedig ar anghenion, yn hytrach na gwasanaeth ac arweiniad y staff. Mae hyn yn golygu bod cymorth yn cael ei nodi i fodloni anghenion penodol y plentyn i wneud ei fywyd yn well, ac nid o gwmpas yr hyn sydd ar gael eisoes neu'r hyn sy'n haws i staff. Er enghraifft, y deiet sydd wedi'i gynllunio yw'r hyn sydd orau i'r plentyn, nid yr hyn sydd wedi'i ddewis eisoes gan eraill.



Cyfranogiad gweithredol

Beth yw cyfranogiad gweithredol?

Mae cyfranogiad gweithredol yn golygu galluogi plant a phobl ifanc i gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal eu hunain ac i gael mwy o lais yn y ffordd maent yn byw eu bywyd mewn ffyrdd sydd o bwys iddynt.

Mae cyfranogiad gweithredol yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a thasgau bywyd bob dydd mor annibynnol â phosibl. Drwy wneud hyn, mae'r unigolyn yn bartner gweithredol yn ei ofal a'i gymorth ei hun, yn hytrach na'i fod yn cael y gofal a'r cymorth y mae pobl eraill yn credu y mae eu heisiau a'u hangen arno. Ymhlith y manteision allweddol i'r plentyn neu berson ifanc fel partner gweithredol yn ei ofal neu ei gymorth ei hun mae manteision corfforol a seicolegol, agweddau cymdeithasol a llesiant gwell.



Sut y gallwn sicrhau dull gweithredu seiliedig ar hawliau?

Yn aml, bydd gweithwyr yn cefnogi plant a phobl ifanc pan fyddant mewn sefyllfa fregus. Bydd safon y gofal y gellir ei ddarparu yn well os bydd gan weithwyr wybodaeth am yr unigolyn cyfan, nid dim ond yr amgylchiadau presennol; er enghraifft, gall gwybodaeth helpu i ddeall yn well pam mae plant/pobl ifanc yn ymddwyn fel y maent.

Mae gwaith cynllunio sy'n blentyn-ganolog yn golygu ystyried mai'r plentyn neu berson ifanc a gefnogir sydd bwysicaf. Mae angen i weithwyr ddod o hyd i ffyrdd o roi gofal a chymorth i blant/pobl ifanc sy'n benodol i'w anghenion.

Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau, sy'n cynnwys gwaith cynllunio plentyn-ganolog, yn ffordd o helpu i feddwl am yr hyn y maent am ei gael nawr ac yn y dyfodol. Y nod yw helpu unigolion i gynllunio eu bywydau, gweithio tuag at gyflawni eu nodau a chael y cymorth cywir. Yr hyn sydd dan sylw yw casgliad o adnoddau a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gyfres o werthoedd a rennir y gellir eu defnyddio i gynllunio gydag unigolyn, nid ar ei ran. Dylai'r gwaith cynllunio ddatblygu cylch cymorth yr unigolyn a chynnwys yr holl unigolion sy'n bwysig yn ei fywyd.



Gweithgaredd 14


Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Pwysigrwydd helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau

Profiadau a gweithgareddau ystyrlon a phleserus

Mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn sicrhau bod pawb yn awyddus i wireddu ei botensial personol. Mae'n bwysig darparu rhywle diogel, tosturiol lle nad oes barnu, lle y gellir helpu'r unigolyn i feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddo a gwneud y penderfyniadau gorau.

Mae llesiant plentyn neu berson ifanc yn cynnwys ei ymdeimlad o obaith, hyder a hunan-barch, a'i allu i gyfleu'r hyn sydd ei eisiau a'i angen arno, cymdeithasu a chael a dangos pleser neu fwynhad. Gall hyn gynnwys y gweithgareddau a'r profiadau y bydd unigolyn yn dewis cymryd rhan ynddynt. Er mwyn hybu llesiant unigolyn, bydd angen iddo fod yn hapus â chynifer o agweddau ar ei fywyd â phosibl. Os bydd yr unigolyn o'r farn y byddai rhywbeth yn ei helpu i deimlo'n well, mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn gadarnhaol, yn amyneddgar ac yn empathig, a pheidio â barnu. Dylent wrando ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn ei fywyd, a'i helpu i wneud y newidiadau y mae am eu gwneud, fel gallu ymuno mewn gweithgareddau neu grwpiau penodol, er enghraifft.



Gweithgaredd 15

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Defnydd gweithredu plentyn-ganolog er mwyn cefnogi cyfranogiad gweithredol a chynhwysiant

Cyfranogiad gweithredol a chynhwysiant

Mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn caniatáu gweithwyr proffesiynol i ystyried sut y byddant yn medru helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan addasu beth fydd angen er mwyn sicrhau arferion cynhwysol.

Dylai gweithwyr proffesiynol weithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn darganfod yr hyn maent yn ei fwynhau a'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys eu diddordebau a'u hobiau. O ganlyniad i'r trafodaethau rhain, gall y gweithwyr drefnu beth fydd angen wneud er mwyn cefnogi'r plentyn neu berson ifanc.



Gweithgaredd 16

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Cydsyniad plentyn neu berson ifanc

Beth yw cydsyniad?

Cydsyniad yw pan fydd unigolyn yn rhoi caniatâd i unigolyn arall i wneud rhywbeth. Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mae hyn yn aml yn golygu bod y plentyn neu'r person ifanc yn cydsynio i gymryd rhan mewn gweithgaredd, neu i gael gofal neu driniaeth. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cael cydsyniad cyn i unrhyw ymyriad neu weithgaredd rhoi gofal ddigwydd. Mae gan unigolion 16 oed neu'n hŷn hawl i gydsynio i'w triniaeth eu hunain, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir diystyru hyn.

Mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n bwysig cofio'r canlynol:

- mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cael cydsyniad cyn i unrhyw gymorth gael ei ddarparu
- mae cael cydsyniad yn ffordd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddangos eu bod yn parchu'r unigolyn
- mae'r broses o gael cydsyniad yn rhan o'r broses o feithrin ymddiriedaeth rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r plentyn/person ifanc
- mae'r plentyn neu berson ifanc yn fwy tebygol o fod eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent wedi cael caniatâd i'w wneud.



O dan ddeddfwriaeth mae gan blant dan 16 yr hawl i gydsynu i'w triniaeth os oes ganddynt y dealltwriaeth a'r gallu i ddeall yn llwyr beth mae'r driniaeth arfaethedig yn gynnwys. Caiff y rhain ei cysidro yn gymwys yn ôl safon Gillick. Fel arall, gall rhywun â chyfrifoldeb rhiant gydsynio iddynt.

Gellir rhoi cydsyniad mewn nifer o ffyrdd, boed drwy gyfathrebu geiriol, yn ysgrifenedig neu drwy weithredoedd neu symudiadau. Gallai'r plentyn neu berson ifanc hefyd ganiatáu i unigolyn arall wneud rhywbeth iddo neu gydag ef, efallai drwy godi braich i gael cymorth wrth wisgo, sydd felly'n dangos cydsyniad. Rhoddir cydsyniad ar sail gwybodaeth pan fydd yr unigolyn yn deall beth mae'n cydsynio iddo.

Cyfrifoldeb rhieni

Beth yw cyfrifoldeb rhieni?

Mae gan y rhan fwyaf o rieni hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol a elwir yn 'gyfrifoldeb rhieni'. Mae cyfrifoldeb rhiant yn cynnwys darparu cartref i blentyn neu berson ifanc yn ogystal â'u diogelu. Mae cyfrifoldeb rhiant hefyd yn cynnwys hawliau a dyletswyddau cyfreithiol, pwerau, cyfrifoldebau ac unrhyw awdurdod sydd gan riant ar gyfer plentyn neu berson ifanc a'u heiddo.

Mae cyfrifoldeb rhiant yn statws cyfreithiol wedi'i danategu gan Ddeddf Plant 1989. Gall eraill, ar wahân i rieni, fod â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc. Er enghraifft, bydd awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dan ei ofal, gwarcheidwad plentyn neu berson ifanc, eu llys-dad neu berthnasau eraill yn gallu caffael cyfrifoldeb rhiant mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc yr hawl i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i fagwraeth. Fodd bynnag, rhaid cytuno ar unrhyw benderfyniadau pwysig ym mywyd plentyn neu berson ifanc gydag unrhyw unigolion eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant.



Pwrpas cynlluniau personol

Beth yw cynlluniau personol?

Mae cynllun personol yn nodi anghenion gofal plant a phobl ifanc, y mathau o wasanaethau y bydd yn eu cael er mwyn diwallu'r anghenion hynny, a phwy fydd yn darparu'r gwasanaethau a phryd.

Cydnabyddir ers tro bod rôl y plentyn neu'r person ifanc yn y gwaith o gynllunio ei ofal personol yn bwysig. Yr arfer gorau yw rhoi blaenoriaeth i rôl y plentyn/person ifanc, ac mae hyn wedi bod yn datblygu fel ffordd ymlaen ar gyfer pob math o waith cynllunio gofal yn y dyfodol.

Fodd bynnag, y syniad yw y dylai plant/ pobl ifanc y mae angen gofal arnynt gael eu cynnwys ar bob cam o'r broses gynllunio. Mae angen i'r broses hon fod yn gylch parhaus, oherwydd gall anghenion newid. Efallai na fydd cynllun personol sy'n diwallu anghenion holistaidd plentyn/person ifanc pan gaiff ei roi ar waith yn bodloni'r gofynion chwe mis yn ddiweddarach.

Mewn perthynas ag iechyd, mae holistaidd yn golygu gweld y plentyn/person ifanc cyfan, nid dim ond ei iechyd corfforol, ond hefyd ei iechyd meddwl a'i iechyd emosiynol, rhywiol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol. Pan fyddwn yn gofalu am rywun, bydd angen i ni ystyried yr holl ofynion hyn, a all fod yn gysylltiedig.



Gweithgaredd 17

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu

Cyflwyniad

Mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn golygu nodi'r camau ymarferol y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu cymryd mewn gweithgareddau beunyddiol er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau eu hunain.

Rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu rôl, gan herio unrhyw ymarfer nad yw'n atgyfnerthu'r dull hwn yn eu barn nhw.

Wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau dull gweithredu cynhwysol, gan addasu eu dull gweithredu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc a thrin pob un â thegwch ac urddas.




Beth yw cydraddoldeb?

Yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, mae deall y termau cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gynhwysol lle na cheir gwahaniaethu.

Mae cydraddoldeb yn golygu trin plant a phobl ifanc yn deg, waeth beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt, drwy sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall, sy'n golygu eu bod yn cael cyfle cyfartal.

Mae cyfleoedd mewn bywyd yn cynnwys:


- tai – mae gwres a lloches yn anghenion dynol sylfaenol
- addysg a chyflogaeth
- cludiant
- iechyd a gofal cymdeithasol
- y gallu i brynu nwyddau a gwasanaethau.



Beth yw amrywiaeth?

Mae amrywiaeth yn golygu gwahaniaethau. Mae detholiad amrywiol o siopau, bwytai, banciau a thafarndai ar bob stryd fawr neu ym mhob canolfan siopa. Mae gan dimau pêl-droed, hyd yn oed, amrywiaeth o rolau, gan gynnwys cefnwr, gôl-geidwad, blaenwr canol ac asgellwr. Rydym yn byw mewn cymdeithas amrywiol, lle mae unigolion yn amrywio mewn llawer o ffyrdd. Gall yr amrywiaethau hyn fod ar sail oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, nodweddiad corfforol fel taldra, pwysau a lliw croen, gallu, profiadau personol a rhinweddau personol, fel credoau, gwerthoedd a dewisiadau.

Mae lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ei brofiadau ei hun a gall ddod o amrywiaeth o wahanol wledydd. Er enghraifft, bydd hoff fwyd neu gerddoriaeth yn amrywio o un unigolyn i'r llall.



Gweithgaredd 18

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Beth yw cynhwysiant?

Bydd cydnabod a deall gwahaniaethau unigol yn helpu unigolion i feithrin ymdeimlad o berthyn, neu gynhwysiant; a bydd rhoi unigolion dan anfantais am eu bod yn wahanol mewn rhyw ffordd yn arwain at eu hallgáu.

Mae cynhwysiant yn golygu derbyn pawb, ni waeth beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae hefyd yn golygu deall gwahaniaethau a bod yn oddefgar ohonynt, a rhoi cymorth a chefnogaeth lle bo hynny'n briodol.

Rhaid i unrhyw sefydliad, gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau addysg, gwasanaeth yr heddlu, sefydliadau gwirfoddol a gweithleoedd sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo cynhwysiant, ddangos ei fod yn gwerthfawrogi popeth ynglŷn â'r unigolion sydd ynghlwm wrtho. Mae cynhwysiant yn rhoi ymdeimlad o lesiant i unigolion, yn ogystal â hyder yn ei hunaniaeth a'i alluoedd ei hun.



Beth yw gwahaniaethu?

Mae gwahaniaethu yn golygu trin plant a phobl ifanc yn wahanol neu mewn ffordd negyddol heb fod rheswm da dros wneud hynny. Noda'r gyfraith y dylai pawb gael eu trin mor ffafriol â'i gilydd ac na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd nodwedd bersonol fel crefydd, rhywedd, oedran neu hil.

Mae dau fath o wahaniaethu – uniongyrchol ac anuniongyrchol. Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg yn fwriadol, er enghraifft aflonyddu ar sail lliw croen neu grefydd. Bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd rheolau neu ganllawiau sydd wedi'u bwriadu i fod yn berthnasol i bawb yn effeithio ar un grŵp o unigolion yn fwy na grwpiau eraill yn anfwriadol.

Gall gwahaniaethu gynnwys:

- peidio â chynnwys plentyn neu berson ifanc mewn gweithgaredd
- talu llai o sylw i blentyn neu berson ifanc nag i'r arall heb reswm da.



Ffyrdd mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysiant

Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn cynnwys yr agweddau a'r dulliau a ddilynir i sicrhau na chaiff unigolion eu hallgáu na'u neilltuo o unrhyw wasanaeth, triniaeth neu weithgaredd.

Mae'n golygu cefnogi amrywiaeth drwy dderbyn gwahaniaethau unigolion a hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Ymarfer cynhwysol yw'r ymarfer gorau.

Gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddangos ymarfer cynhwysol drwy weithio mewn ffyrdd sy'n cydnabod, yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn gwneud y gorau o bob agwedd ar amrywiaeth. Mae meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o anghenion amrywiol plant a phobl ifanc, ac ymateb yn sensitif iddynt, yn eu helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn, llesiant a hyder yn eu hunaniaeth a'u galluedd.



Effaith peidio â hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Ystyr rhagfarn yw agwedd neu ffordd o feddwl sy'n seiliedig ar farn ddi-sail ac afresymol a ffurfiwyd ymlaen llaw mewn perthynas ag unigolyn, grŵp penodol o unigolion neu sefyllfa, yn hytrach nag ar asesiad ffeithiol. Nid yw hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth na chynhwysiant.

Mae ymarfer cynhwysol yn golygu deall yr effaith drychinebus y gall gwahaniaethu, anghydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol ei chael ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unigolyn. Mae meddu ar ddealltwriaeth o'r fath yn sicrhau gofal a chymorth priodol sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn, a thrwy hynny alluogi unigolyn i feithrin hunan-barch a chynnal rôl werthfawr mewn cymdeithas.

Yn aml, nid yw unigolion sy'n methu â chefnogi amrywiaeth neu hyrwyddo cydraddoldeb yn ymwybodol o'u hagweddau ac effaith eu hymddygiad, felly mae ymarfer cynhwysol yn golygu myfyrio ar ein rhagfarnau, ein hymddygiad a'n harferion gwaith ein hunain, a'u herio. Mae hefyd yn golygu herio rhagfarnau, ymddygiad ac arferion gwaith cydweithwyr a darparwyr gwasanaethau eraill, gyda'r nod o addasu ffyrdd o feddwl a gweithio a newid gwasanaethau er mwyn adeiladu ar arfer da a chefnogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb yn well.



Sut gall cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plant a phobl ifanc gael eu gwerthfawrogi

Cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol

Yn gyfreithiol, ac yn foesol, mae gan bawb hawl i allu cael gafael ar wasanaethau nad ydynt yn gwahaniaethu ar sail crefydd, tarddiad ethnig, cefndir ieithyddol, diwylliant, rhywedd, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yn golygu y bydd gwasanaethau'n cydnabod ac yn parchu gwahaniaethau penodol unigolion a diwallu eu hanghenion penodol yn hytrach na bod pob un ohonynt yn cael yr un gwasanaeth.

Mae gallu deall anghenion, dewisiadau a gwerthoedd plant a phobl ifanc yn helpu i sefydlu partneriaeth gadarnhaol sy'n llawn parch.

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc, neu gynnig gwasanaeth o ansawdd gwaeth iddynt, os ydynt yn perthyn i'r grwpiau canlynol, a ddiogelir gan ddeddfwriaeth: hil, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred.

Mae llawer o agweddau cadarnhaol ar ddiwylliant – mae'n rhoi patrwm a chynefindra i fywyd sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo'n gartrefol ac yn ddiogel. Mae'n helpu pobl i feithrin ymdeimlad o hanes a'u gwreiddiau, ac mae'n bwysig ar gyfer ffurfio hunaniaeth gadarnhaol. Gall helpu pob un ohonom i feithrin gwybodaeth am gelfyddydau cerddorol, gweledol a choginiol, a gwerthfawrogiad ohonynt.



Mae cynnal digwyddiadau arbennig i nodi achlysuron diwylliannol neu grefyddol neu ddysgu geiriau newydd mewn iaith arall yn ffyrdd o gynyddu gwerth a pharch tuag at yr amrywiaeth eang o gefndiroedd a all fod gan blant a phobl ifanc.

Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arfer cynhwysol trwy weithio mewn ffyrdd sy'n cydnabod, yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn gwneud y gorau o bob agwedd ar amrywiaeth, gan gynnwys cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol.

Mae meddu ar ymwybyddiaeth ddofn o anghenion amrywiol plentyn neu berson ifanc ac ymateb yn sensitif iddynt yn eu cefnogi i ddatblygu teimlad o berthyn, llesiant a hyder yn eu hunaniaeth a'u galluedd. Mae'n eu helpu i gyflawni eu potensial a chymryd eu lle haeddiannol mewn cymdeithas.

Herio gwahaniaethu neu arfer nad yw'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth na chynhwysiant

Nodi ymarfer sy'n gwahaniaethu

Gall ymarfer gwahaniaethol, neu ymarfer nad yw'n cefnogi ansawdd, amrywiaeth a chynhwysiant, ddigwydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Er enghraifft:

- O fewn ysgolion neu golegau, lle na fydd plant/pobl ifanc o bosibl yn cael cefnogaeth ac anogaeth os tybir bod eu hanabledd neu ddiffyg diddordeb yn effeithio ar eu gallu i ddysgu a chyflawni.
- Wrth chwarae a rhyngweithio â phlant/pobl ifanc eraill.
- Mewn lleoliadau gofal pan fydd unigolion yn cael eu herlid ar sail lliw eu croen neu eu dewis rhywiol.



Gweithgaredd 19

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Herio ymarfer sy'n gwahaniaethu

Mae cyfrifoldeb ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gofal o safon uchel i'r plant/pobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, i ddiogelu eu hawliau a hyrwyddo eu buddiannau. Byddai unrhyw beth arall yn gyfystyr ag esgeulustod. Nid yw siarad â phlant/pobl ifanc am wahaniaethu yn sicrhau y byddant yn newid eu ffordd o feddwl ac, o ganlyniad, eu hymddygiad. Nid yw bodolaeth deddfwriaeth, polisiâu a gweithdrefnau a Chodau Ymarfer yn sicrhau y bydd plant/pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu trin yn deg ac y bydd eu hawliau'n cael eu parchu.

Rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol geisio dangos a modelu arfer da bob amser. Yn ogystal ag arwain drwy esiampl, dylent fod yn barod i gefnogi cydraddoldeb a hawliau plant/pobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw drwy siarad ar eu rhan. Nid yw llawer o blant a phobl ifanc yn gallu sicrhau bod eu lleisiau eu hunain yn cael eu clywed, er enghraifft, efallai fod ofn arnynt neu ddiffyg hyder i leisio eu barn; efallai eu bod yn sâl, wedi drysu, neu'n methu â chyfathrebu'n effeithiol; ac, yn syml, nid yw llawer o blant/bobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau.



Dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn barod i siarad â'u rheolwyr, neu aelodau uwch o staff, ynglŷn ag ymddygiad pobl eraill os yw'n methu â hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau neu os yw'n gwahaniaethu. Efallai y bydd angen iddynt siarad ag eiriolwr a allai siarad ar ran y plentyn/person ifanc. Dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn agored i gael adborth ar eu harferion gwaith eu hunain, ac ymateb iddo os bydd angen.

Gweithgaredd 20

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Cymryd risgiau cadarnhaol a phwysigrwydd gallu cymryd risgiau cadarnhaol i lesiant plant a phobl ifanc

Cyflwyniad




Mae helpu pobl i gymryd risgiau cadarnhaol yn allweddol er mwyn dilyn cynlluniau a dulliau gweithredu plentyn-ganolog, sydd â'r nod o gynyddu cynhwysiant a hyrwyddo cyfranogiad pobl yn eu gofal a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt.

Gwerth cymryd risgiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc

Mae rheoli risgiau o fewn arferion yn rôl bwysig. Dylid trafod y risgiau posibl a beth yw'r ffordd orau o ymdrin â nhw gyda'r plant a phobl ifanc er mwyn iddynt wneud dewisiadau hyddysg.

Rhaid rhoi'r cymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i gymryd y risgiau ac i wneud dewisiadau hyddysg. Gallai profiadau newydd a chynnydd yng nghyfranogiad y gymuned olygu y bydd plant a phobl ifanc yn cymryd risgiau mewn ffyrdd sy'n cynnig cyfleoedd i feithrin annibyniaeth, hyder, llesiant, llais ac ymreolaeth.



Gweithgaredd 21

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Hawliau plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau a chymryd risgiau

Dewisiadau a chymryd risgiau

Dylid rhoi'r cymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i gymryd y risgiau y maent am eu cymryd ac i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gyflawniad a hunan-barch.

Mae rhoi dewis a rheolaeth go iawn i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu galluogi unigolion i gymryd y risgiau a ddewisir ganddynt. Mae gan bawb hawl i gymryd risgiau a gwneud dewisiadau, ond os oes gan unigolion ddealltwriaeth fwy cyfyngedig o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd y maent am gymryd rhan ynddo, rhaid eu helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.



Pan fyddwn yn ystyried risgiau, dylem wneud hynny mewn perthynas â chryfderau, galluoedd a rhwydweithiau cymorth unigolion. Dylai fod gan bawb hawl i wneud dewisiadau ynglŷn â'u bywydau, felly mae'n bwysig canfod p'un a yw risg yn sylweddol, a ph'un a yw'n debygol o ddigwydd.

Rhaid i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol allu dangos bod proses asesu risg, sef proses o bwysu a mesur pethau'n ofalus, gan gynnwys yr unigolion a phobl eraill sy'n eu hadnabod, wedi digwydd. Mae'n bosibl y gall hyn arwain at lunio asesiad risg ysgrifenedig ffurfiol.

Sut mae cydbwysu hawliau, risgiau a chyfrifoldebau yn cyfrannu at ddulliau gweithredu plentyn-ganolog

Hawliau, risgiau a chyfrifoldebau

Tybir bod gan bawb alluedd, oni phofir fel arall (Y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mis Ebrill 2005). Mae pawb yn gallu cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau, ni waeth a dybir bod ganddynt alluedd ai peidio. Mae'r gallu i gydsynio yn dibynnu ar alluedd y plentyn neu'r person ifanc i ddeall a phwysu a mesur ei hopsiynau yn hytrach nac ar ei hoedran.

Dylid cwblhau asesiad risg ar yr achlysuron canlynol:

- wrth gynllunio gweithgareddau, teithiau a digwyddiadau
- wrth gynllunio a phrynu cyfleusterau newydd
- pan gyflwynir arferion gwaith newydd
- pan fydd unigolyn yn datblygu angen arbennig, neu lle bo newid sylweddol i'r anghenion sydd ganddo eisoes.

Hefyd, dylid bod system ar gyfer adolygu'r asesiadau risg yn rheolaidd. Ni ddylid ysgrifennu unrhyw asesiad risg heb gynnwys dyddiad adolygu, boed yn fisol, yn chwarterol, bob chwe mis neu'n flynyddol, yn dibynnu ar yr angen. Mae hyn yn sicrhau bod gan blentyn neu berson ifanc reolaeth, cyfrifoldeb a llais llawn dros benderfyniadau sy'n effeithio arno, gan ddilyn arfer da ar ffurf dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Cynhelir asesiad risg, wedyn caiff y plentyn neu'r person ifanc ei hysbysu a'i arwain wrth bwysu a mesur y risg a'r manteision, neu'r anfanteision, sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithgaredd dan sylw. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu unigolion i gydbwysu eu hawliau, y risgiau a'u chyfrifoldebau.

Gweithgaredd 22

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Yr hyn mae angen ei ystyried wrth gynorthwyo plant a phobl ifanc i gymryd risgiau cadarnhaol

Yr hyn y dylid ei ystyried wrth gynorthwyo plant a phobl ifanc i gymryd risgiau cadarnhaol

Y dyddiau hyn, caiff pob un ohonom ein hannog i deithio, i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon, i fynd i'r coleg, i ddatblygu gyrfaedd ac i gael ein teuluoedd ein hunain. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn digwydd yn awtomatig – rhaid i unigolion gymryd risgiau i gyflawni eu nodau. Tydi bywydau'r plant a'r bobl ifanc sydd â mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddim gwahanol.

I lawer o blant a phobl ifanc, mae cymryd risgiau yn rhan o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, ni chaiff unigolion ag anabledd neu salwch meddwl, neu unigolion hŷn er enghraifft, eu hannog i gymryd risgiau bob amser. Gallai hyn fod oherwydd eu cyfyngiadau canfyddedig, neu oherwydd ofn y gallen nhw neu bobl eraill gael niwed. Mae hyn yn berthnasol hefyd i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'n bryder nad ydynt yn ymwybodol neu ddeall y peryglon ac na ddylent gael eu hannog i gymryd risgiau.

Mae newidiadau yn agwedd cymdeithas tuag at anabledd, gofal cymdeithasol a phroblemau iechyd bellach yn golygu bod unigolion yn cael eu hannog i fod yn fwy annibynnol yn eu gweithgareddau bob dydd ac mewn penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Rhoddir mwy o ffocws bellach ar wella galluoedd unigolion yn hytrach na chanolbwyntio ar eu hanableddau a'r pethau na allant eu gwneud.

Lleihau risgiau cymaint â phosibl

Mae risg yn aml yn gysylltiedig â pherygl, colled, bygythiad, difrod neu anaf. Ond, yn ogystal â'r nodweddion negyddol, gall cymryd risgiau arwain at fuddiannau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Gellir lleihau risg drwy gael cymorth gan bobl eraill ond, wrth hybu annibyniaeth, rhaid i gyfrifoldeb unigolion dros gymryd risgiau daro cydbwysedd rhwng diogelu unigolyn rhag niwed a'i alluogi i fyw bywyd mwy annibynnol lle y bydd yn rheoli risgiau ar ei ben ei hun. Rhaid taro cydbwysedd rhwng dymuniadau plant a phobl ifanc i wneud gweithgareddau bob dydd, dyletswydd gofal gwasanaethau i unigolion sy'n eu defnyddio, a dyletswyddau cyfreithiol gwasanaethau statudol.

Yn ogystal â meddwl am y peryglon sy'n gysylltiedig â risg, rhaid nodi manteision cymryd risgiau. Dylai hyn gynnwys pawb yr effeithir arnynt, plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



Gweithgaredd 23

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Gweithio perthynas-ganolog

Cyflwyniad



Mae'r arfer gorau mewn unrhyw leoliad gwaith yn seiliedig ar gydberthnasau gwaith effeithiol, gallu i ddilyn ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt a gallu i weithio mewn partneriaeth ag eraill.

Cyberthnasau gwaith effeithiol

Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyberthnasau gwaith effeithiol yn seiliedig ar broffesiynoldeb ac egwyddorion gofal, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol barchu a hyrwyddo hawliau pawb y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae gwaith perthynas-ganolog yn ddull wedi'i deilwra i ffurfio a chynnal cyberthnasau pwysig yn ogystal â chynabod pwysigrwydd y cyberthnasau hyn wrth ddarparu gofal a chymorth effeithiol a diogel. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, yr unigolyn y mae angen gofal a chymorth arnynt a phawb sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, caiff eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u heiriolwyr gymorth pellach gan waith sy'n canolbwyntio ar gyberthnasau.

Mae'r dull gweithredu perthnasoedd-ganolog yn cydnabod pwysigrwydd y cyberthnasau rhyngpersonol a phersonol sy'n bodoli rhwng y plant a'r bobl ifanc ac eraill o'u cwmpas. Y gyberthynas sy'n ffurfio'r cyd-destun ar gyfer darparu gofal a chymorth.



Gweithgaredd 24

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Pwysigrwydd meithrin perthynas gadarnhaol â phlant a phobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr

Cydberthnasau cadarnhaol

Mae'n bwysig meithrin cydberthynas gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen mewnbwn gan aelodau'r tîm, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sydd i gyd yn rhanddeiliaid yn y gwaith o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth drwy feithrin cydberthnasau cadarnhaol yn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn modd holistaidd gan ddilyn yr arfer gorau.



Mae cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth, sy'n allweddol er mwyn sicrhau y caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a'u bod yn derbyn y gofal a'r cymorth y maent yn gofyn amdanynt ac sydd eu hangen arnynt. Os nad yw cydberthynas yn un gadarnhaol, ni fydd unigolion yn teimlo y gallant gyfathrebu'n effeithiol â staff a phobl eraill, ac ni fyddant yn gallu cyfleu eu hanghenion, eu pryderon a'u dewisiadau.

Ffiniau proffesiynol a sut i gydbwysu'r rhain â gwaith perthynas-ganolog

Ffiniau proffesiynol

Cyberthnasau yw'r agwedd fwyaf cymhleth ar ein bywydau, fwy na thebyg. Byddwn yn dechrau ffurfio cyberthnasau pan gawn ein geni. Mae cyberthnasau gwaith effeithiol yn seiliedig ar ffiniau proffesiynol, sy'n golygu, pan fydd gweithwyr yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a gofal, rhaid iddynt wneud y canlynol:

- dangos parch tuag at eu credoau, eu barn, eu profiadau bywyd a'u cefndiroedd cymdeithasol ac ethnig
- darparu gwasanaethau yn seiliedig ar eu dymuniadau, eu disgwyliadau a'u dewisiadau
- cefnogi eu hawliau mewn perthynas ag urddas, dewis, preifatrwydd, annibyniaeth, cyfrinachedd, cydraddoldeb a thriniaeth deg
- eu diogelu rhag niwed gan gefnogi eu hawl i gymryd risgiau ar yr un pryd
- cyfathrebu gan ddefnyddio'r dull sydd orau gan yr unigolyn
- eu cefnogi mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

Mae'n bwysig taro cydbwysedd rhwng y ffiniau hyn a'r angen am waith sy'n canolbwyntio ar gyberthnasau er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol. Os na fydd plentyn/person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys, ni fydd yn fodlon mynegi ei anghenion, ei dymuniadau a'i bryderon.

Mathau o arferion annerbyniol a all ddigwydd o fewn perthnasoedd

Beth yw arferion annerbyniol?

Os yw gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol am sicrhau y caiff gwasanaethau diogel ac effeithiol eu darparu, mae'n bwysig bod yn sylwgar a chwestiynu'r pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus neu'n anniogel.

Mae arfer da ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod staff yn gweithio mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt gael gofal urddasol a diogel.

Mae arfer annerbyniol yn golygu nad yw'r plant neu'r person ifanc yn derbyn gofal a thriniaeth briodol a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu methu gan y system.

Enghraifft arall o arfer annerbyniol yw pan fydd unigolion mewn perygl ac yn gwadu gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w cael, yn cael eu trin yn annheg a / neu wedi eu gwahaniaethu yn eu herbyn ac nad ydynt yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion. Gallai olygu cymryd mantais o unigolion er budd ariannol, neu ofyn iddynt ymgymryd â dyletswyddau nad ydynt wedi'u hyfforddi i'w gwneud.



Mae'n rhaid i'r gweithwyr gofio eu bod yn weithwyr proffesiynol ac nid 'ffrindiau' felly mae'n rhaid iddynt ymddwyn mewn ffordd broffesiynol ar bob adeg.

Byddai arferion annerbyniol yn cynnwys:

- cyswllt rhywiol ag unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- achosi niwed corfforol neu anaf i unigolion
- gwneud sylwadau, ystumiau neu awgrymiadau sarhaus neu ymosodol
- ceisio cael gwybodaeth am hanes personol lle nad yw'n angenrheidiol nac yn berthnasol
- gwylio unigolyn yn dadwisgo pan nad yw'n angenrheidiol
- rhannu gwybodaeth bersonol neu breifat amdanoch chi lle nad yw'n angenrheidiol
- cyffwrdd, cofleidio ac anwesu amhriodol
- cuddio gwybodaeth am unigolion oddi wrth gydweithwyr, er enghraifft, peidio â chwblhau cofnodion, cynllwynio mewn gweithredoedd troseddol
- derbyn rhoddion a lletygarwch yn gyfnewid am well triniaeth
- rhannu sibrydion am unigolion neu eraill sy'n agos iddo
- camddefnyddio arian neu eiddo unigolyn
- annog unigolion i ddod yn ddibynnol er budd y gweithiwr ei hun
- cynnig breintiau arbennig i 'hoff unigolion', er enghraifft treulio gormod o amser gyda rhywun, dod yn rhy agos, neu ddefnyddio dylanwad er mwyn bod o fudd i un unigolyn yn fwy nag eraill
- darparu mathau o ofal na fyddant yn cyflawni'r canlyniad a gynlluniwyd
- darparu cyngor neu gwnsela arbenigol lle **nad** yw'r gweithiwr yn gymwysedig i wneud hyn
- methu â darparu gofal a chymorth cytûn i unigolyn, neu ei wrthod, er enghraifft, oherwydd teimladau negyddol tuag at unigolyn
- ceisio gwthio eich credoau crefyddol, moesol neu wleidyddol eich hun ar unigolyn
- methu â hyrwyddo parch nac urddas
- unrhyw arferion a waherddir yn benodol mewn deddfwriaeth, rheoliadau statudol, safonau a chanllawiau perthnasol
- mynd â phlentyn/person ifanc yr ydych yn ei cefnogi i'ch cartref.

Gweithgaredd 25

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Pwysigrwydd 'cyfathrebu effeithiol' ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc

Cyflwyniad



Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau, er mwyn eu galluogi i ddeall y cymorth sydd ar gael i ddiwallu eu hanghenion. Mae cyfnewid gwybodaeth yn bwysig i feithrin dealltwriaeth o anghenion unigolyn, er mwyn cefnogi'r unigolion y mae angen gofal arnynt a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Pam mae cyfathrebu clir ac effeithiol yn bwysig?

Wrth gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, os yw'r wybodaeth a gaiff ei chyfnwid yn anghywir, gellir gwneud camgymeriadau. Er enghraifft, gellid rhoi presgripsiwn ar gyfer y feddyginiaeth anghywir i blentyn neu berson ifanc os nad yw'r meddyg teulu yn gwybod bod ganddynt alergedd iddo. Os na chaiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol, mae'n bosibl na fydd unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac ni fydd gweithwyr yn gallu cyflawni eu rolau mor effeithiol ag y gallent pe bai gwybodaeth yn cael ei chynnal.

Bydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ffurfio llawer o gydberthnasau gwahanol yn eu rôl – bydd rhai yn ffurfiol ac eraill yn anffurfiol. Mae angen cyfathrebu'r ddwy ffordd yn y cydberthnasau hyn, a phennu'r ffiniau ar eu cyfer. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod pawb dan sylw yn deall diben y gydberthynas a'r hyn y mae pawb am ei gyflawni.



Mae'r cydberthnasau rhwng gweithwyr a phlant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau, a rhwng cydweithwyr, yn effeithio ar y gallu i ddarparu gofal a chymorth effeithiol. Gellir meithrin parch at ei gilydd drwy gyfathrebu'n dda. Bydd dod i adnabod unigolion drwy siarad â nhw a gwrando arnynt yn galluogi gofalwyr i feithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth a fydd yn arwain at gydberthnasau cryfach yn yr hirdymor.

Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin rhwng gweithwyr a phlant ac unigolion pan fyddant yn cyfathrebu'n effeithiol a phan sefydlir ymddiriedaeth. Er mwyn cynnal cymorth effeithiol a chael llwyddiant, dylai pob unigolyn sy'n rhan o gydberthynas wybod yn glir beth yw ei gyfrifoldebau a beth yw disgwyliadau'r unigolyn arall.

Gweithgaredd 26

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Nodweddion allweddol cyfathrebu effeithiol

Nodweddion allweddol cyfathrebu effeithiol

Mae cyfathrebu effeithiol yn golygu mwy na dim ond rhannu gwybodaeth, mae'n golygu cynnwys yr unigolyn arall neu'r unigolion eraill rydych yn rhyngweithio ag ef neu â nhw, ac ymgysylltu ag ef neu â nhw.

Mae cyfathrebu geiriol yn ddull cyfathrebu pwysig rhwng gofalwyr a phlant a phobl ifanc.

Bydd unigolion yn siarad â'i gilydd a chael sgysiau'n rheolaidd, gan dderbyn a rhoi gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol. Mae cyfathrebu yn broses ddwyffordd. Dyma pryd y gellir cyfnewid syniadau a gwneud penderfyniadau yn y fan a'r lle.

Os bydd unrhyw ddryswch ynglŷn â'r hyn sydd wedi cael ei ddweud, gellir egluro hynny ar y pryd fel bod pawb yn gwybod ac yn deall beth yn union sydd wedi digwydd neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

Bydd plant a phobl ifanc yn gallu dysgu am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt neu y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Gellir rhoi cyfarwyddiadau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn iddynt wybod beth yw eu dyletswyddau. Yn ychwanegol i hyn, gellir cyflawni gweithgareddau a datrys problemau gan ddefnyddio dull addas o gyfathrebu ar gyfer y plentyn/person ifanc. Mae cydweithrediad yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol rhwng y timau.



Gweithgaredd 27

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol

Sut i gyfathrebu'n effeithiol

Proses ddwyffordd yw cyfathrebu, lle mae'r naill unigolyn yn ceisio deall a dehongli'r hyn y mae'r llall yn ei ddweud, neu wneud synnwyr ohono.

O fewn maes iechyd a gofal cymdeithasol bydd angen ar adegau addasu dulliau cyfathrebu er mwyn cwrdd ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd angen gofal. Mae'n rhaid siarad yn eglur, osgoi defnyddio jargon neu derminoleg a all fod yn anodd i'r unigolyn ei ddeall.

Mae gwrando gweithredol yn helpu i wneud y gorau o'r rhyngweithio wrth gyfathrebu. Mae'n bwysig i weithwyr ddangos eu bod yn gwrando ar y plentyn neu'r person ifanc, a'u bod wedi clywed a deall yr hyn sydd wedi cael ei ddweud.

Gall gwên galonogol a chyswllt llygaid sicrhau bod unigolion yn deall bod gan weithwyr ddiddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddweud.

Dylai gweithwyr ddefnyddio iaith corff agored, a gall defnyddio ystumiau fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae dangos diddordeb yn yr hyn sy'n cael ei ddweud yn annog plant a phobl ifanc i gyfathrebu mwy, a gall olygu eu bod yn fodlon rhoi mwy o fanylion. Ni ddylid rhuthro wrth gyfathrebu, oherwydd gall hyn wneud i unigolyn deimlo nad yw'n bwysig, neu nad yw'n cael ei barchu rhyw lawer.



Gweithgaredd 28

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sut i ddysgu beth yw anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu ac iaith plentyn

Anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu

Caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu hannog i ddefnyddio technegau gwrando gweithredol er mwyn gwneud y gorau o'r broses gyfathrebu a nodi anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu ac iaith y plant neu'r bobl ifanc.

Dim ond tua deg y cant o'n cyfathrebu sydd ar lafar mewn gwirionedd, a thrwy'r broses gyfathrebu ddwyffordd hon bydd hyn yn galluogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd i ffurfio cydberthnasau a nodi eu hanghenion a'r hyn sydd angen ei wneud i'w cefnogi.

Yn ystod y broses hon, mae'n bwysig gadael i'r plentyn neu'r person ifanc siarad heb gwestiynu gormod arnynt. Gall hyn eu llorio. Mae'n rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ystyried y gwahanol dechnegau y gellid eu defnyddio i gasglu gwybodaeth yn gywir ac yn effeithiol heb beri gormod o ofid i'r plant a'r bobl ifanc.



Wrth gael gwybod sut mae plentyn neu berson ifanc yn dymuno cyfathrebu, mae'n bwysig dewis yr adeg gywir a'r lle cywir. Os oes angen trafod rhywbeth yn gyfrinachol ag unigolyn, mae'n hollbwysig sicrhau bod lleoliad preifat yn cael ei ddewis ac nad oes unrhyw un yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd rhywun arall yn clywed.

Er y gall ffrindiau a theulu fod o gymorth, gall gwasanaethau eiriolaeth gael ei galw i helpu yn ystod y broses hon.

Gweithgaredd 29

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Sut y bydd cyfnod datblygiad y plentyn neu berson ifanc yn effeithio ar ei sgiliau cyfathrebu

Cyfnod datblygiad

Er y bydd plant a phobl ifanc yn symud ymlaen drwy eu cerrig milltir mewn perthynas â datblygiad, gall pryd a sut fyddan nhw'n gwneud hynny amrywio'n sylweddol.

Bydd plant yn dysgu sut i gyfathrebu drwy wyllo a gwranddo ar eu rhieni a'u gofalwyr, gan ddynwared eu geiriau a'u gweithredoedd. Y mwyaf byddwn ni'n cyfathrebu â phlant, y mwyaf tebygol y byddan nhw o ddatblygu'r sgiliau hyn. Er mwyn cyfathrebu'n effeithiol mae'n bwysig ystyried diwylliant a chyd-destun, er enghraifft lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol.



Gall llawer o ffactorau economaidd-gymdeithasol chwarae rhan yn natblygiad plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys dylanwad rhieni a dylanwad amgylcheddol.

Gall sgiliau cyfathrebu gwael effeithio ar feysydd datblygu eraill, gan gynnwys methu cymdeithasu, sy'n gwneud datblygu a chynnal perthnasoedd yn heriol. Gall hefyd arwain at drafferthion gyda llafaredd a thasgau ysgrifenedig, sy'n achosi problemau hyder a hunan-barch. Gall mynd yn rhwystredig gan nad ydych chi'n gallu mynegi eich hun achosi gofid emosiynol hefyd.

Ystyriwch anghenion y plant rydych chi'n gweithio gyda nhw neu'n eu hadnabod. Sut mae ffactorau gwahanol wedi effeithio ar eu datblygiad cyfathrebu?

Rhwystrau posibl rhag cyfathrebu'n effeithiol a ffyrdd o fynd i'r afael â nhw

Rhwystrau rhag cyfathrebu da

Sut bynnag y byddwn yn dewis cyfathrebu, rhaid i ni geisio sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwybodaeth yn gallu ei deall yn llawn ac ymateb iddo gan ddangos eu dealltwriaeth. Gall fod adegau pan gaiff neges ei chamddechongli am nad ymdriniwyd â rhwystrau sy'n effeithio ar y broses gyfathrebu. Gallai'r rhwystrau hyn gynnwys:

- amgylcheddol
- iaith
- colli synhwyrâu
- diwylliannol.



Ar adegau, gall rhwystrau rhag cyfathrebu cael eu creu pan fydd plant a phobl ifanc yn camddeall neu gamddechongli negeseuon gan nad ydynt yn ddigon hyderus i ddefnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu. Gall hyn fod oherwydd nad ydynt wedi cael y cyfle neu oherwydd camau eu datblygiad.

Er enghraifft, gall fod yn hawdd camddechongli llythyr, galwad ffôn, neges destun neu e-bost am nad yw'r dulliau cyfathrebu hyn yn cynnwys unrhyw iaith y corff i'w ategu a'u hatgyfnerthu. Mae cyfathrebu wyneb yn wyneb yn cynnig cliwiau gweledol o'r gwybodaeth sy'n cael ei gyfathrebu.

Rhwystrau amgylcheddol

Fe all amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol fod yn swllyd, dryslyd a gall fod yn anodd canolbwyntio ynddo. Mae'n bwysig i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wybod hyn a gweithio i leihau unrhyw sŵn cefndir cymaint â phosibl.

Pa mor aml y bydd plant a phobl ifanc mewn ystafell gyda phlant a phobl ifanc swllyd iawn tra bod rhywun yn ceisio siarad â nhw, er enghraifft? Ystyriwch yr effaith all hyn gael ar eu gallu i ganolbwyntio ar sgwrs ag eraill.

Dylai bod manau tawelach ar gael ble bo angen er mwyn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol.

Mae hefyd yn bwysig bod y gweithiwr yn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn hygyrch, a bod gosodiad yr ardaloedd chwarae yn annog plant a phobl ifanc i ryngweithio gyda'i gilydd. Bydd hyn nid yn unig yn annog sgwrsio rhwng gofalwyr a phlant a phobl ifanc, bydd hefyd yn eu hannog i gymdeithasu gyda'i gilydd.



Rhwysrau ieithyddol a diwylliannol

Mae cyfathrebu effeithiol yn dibynnu ar ba mor dda y byddwn yn gwrando ar eraill ac yn ymateb iddynt.

Ymddygiadau ieithyddol a diwylliannol a all llesteirio'r broses gyfathrebu:

- os bydd plentyn neu berson ifanc yn goruchafu ar y broses gyfathrebu, bydd yn mynd yn broses unffordd lle y caiff ymatebion unigolion eu llesteirio
- wrth siarad gormod amdano ei hun, yna bydd pwnc neu ffocws y broses gyfathrebu'n newid
- gall rhegi fod yn bwerus ar adegau, ond nid yw fel arfer yn apelio at bobl eraill
- defnyddio jargon: bydd pobl yn aml yn defnyddio geiriau sydd ond yn perthyn i'w maes arbenigedd
- bydd defnyddio geiriau, goslef neu ymddygiad nawddoglyd yn gwneud i unigolion a'u teuluoedd deimlo'n ddig ac yn amddiffynnol
- bygwth unigolyn, boed yn amlwg neu drwy awgrym, er mwyn ei berswadio i wneud rhywbeth nad yw am ei wneud
- bod yn ddidostur neu'n ansensitif, neu beidio â bod yn ymwybodol o'ch teimladau eich hun a theimladau pobl eraill.

Gweithgaredd 30

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Nam ar y synhwyrau

Gall rhai plant a phobl ifanc ei chael hi'n anodd cyfathrebu am fod eu golwg neu eu clyw yn wael.

Gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi plant a phobl ifanc sydd â nam ar y synhwyrau drwy wneud yn siŵr bod eu golwg yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Gallant helpu i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni a'i ofalwyr i wneud apwyntiadau a'u mynychu, gan sicrhau bod ei sbectol yn lân ac yn cael ei gwisgo'n iawn, a bod ei eiddo'n cael ei gadw yn yr un lle cyfarwydd.

Gallai gweithiwr hefyd ddysgu beth yw'r ffordd gywir o dywys a chynorthwyo rhywun rhannol ddall wrth gerdded a dysgu pa gymhorthion gweledol sydd ar gael.

Gall gweithwyr gefnogi plant a phobl ifanc â nam ar y clyw drwy wneud yn siŵr bod eu clyw yn cael ei brofi'n rheolaidd, bod eu teclyn clyw yn lân ac yn cael ei wisgo'n iawn a bod y batri'n gweithio. Gall y gweithiwr hefyd ddysgu'r ffordd gywir o osod batri newydd mewn teclyn clyw.



Goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu

Fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n bwysig sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn dawel, wedi'i oleuo'n dda, yn gynnes ac yn gyfforddus. Mae hefyd yn bwysig gwybod a deall sut mae angen i blant a phobl ifanc gyfathrebu, a defnyddio dull cyfathrebu a ddewisir ganddynt. Os yw'n briodol, efallai y bydd yr unigolyn am ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu neu gymhorthion dynol fel eiriolwyr, dehonglwyr, cyfieithwyr ac arwyddwyr.



Dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol siarad yn glir, defnyddio iaith corff briodol a gwrando'n weithredol er mwyn dangos bod ganddynt ddiddordeb a'u bod yn ceisio deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt. Mae hefyd yn bwysig iddynt gadarnhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn eu deall yn iawn ac eu bod yn medru cadarnhau'r neges trwy ei hadrodd yn ôl.

Mae angen i weithwyr ddod yn gyfarwydd ag anghenion unigolion sydd â chredoau diwylliannol gwahanol. Mae angen iddynt sicrhau bod eu gwybodaeth am arferion diwylliannol yn dda yn ogystal â gwybod sut i gefnogi unigolyn i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Bydd angen iddynt wneud pob ymdrech i ddarparu adnoddau ac addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion unigol.

Gweithgaredd 31

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Gweithgaredd 32

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Pwysigrwydd cydnabod a chefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Cyflwyniad



Mae deddfwriaeth ddiweddar mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a datblygiadau mewn polisi iaith yng Nghymru wedi'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau eu bod wedi rhoi trefniadau staffio priodol a digonol ar waith i ddarparu gwasanaethau dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar gyfer unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae'n hollbwysig bod gan staff iechyd a gofal cymdeithasol sgiliau cyfathrebu da. Gall cyfathrebu effeithiol sicrhau bod gan ofalwyr ddealltwriaeth fanwl o anghenion unigolyn, er mwyn iddynt allu darparu gwasanaeth effeithiol o safon uchel i unigolion. Mae cyfathrebu gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn yn ffactor pwysig i'w ystyried wrth gynllunio a darparu gofal a chymorth.

Er mwyn darparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion unigol plant a phobl ifanc ac yn parchu eu hamrywiaeth, rhaid i'w gwasanaethau allu cefnogi iaith a diwylliant Cymru drwy allu cyfathrebu â phobl y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Bydd cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil ynndo'i hun, a dylid ei werthfawrogi a'i ddefnyddio mewn modd cadarnhaol yn y gweithle, yn sicrhau y caiff ei weld fel sgil proffesiynol. Yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n sgil cyfathrebu sy'n hanfodol ar gyfer rhai swyddi ac yn

ddymunol ar gyfer rhai eraill. Mewn llawer o achosion, fel y nodir yn strategaeth **Mwy na Geiriau**, mae'n sgil hollbwysig ar gyfer gweithio gydag unigolion a theuluoedd.



Deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg

Deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gwaith y Comisiynydd yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- dylai unigolion yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg 2011 a Mwy na Geiriau yn cyflwyno safonau i esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg. Nod y ddeddfwriaeth yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i unigolion gael eu cefnogi i siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013) yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau Cymraeg i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'u teuluoedd.

Dilynwch y ddolen isod i ddarllen mwy am sgiliau Cymraeg.



 Darllen pellach

<https://bit.ly/2FNHEOk>

Egwyddorion Mwy na Geiriau / More than Just Words

Beth yw Mwy na Geiriau / More than Just Words?

Mae Mwy na Geiriau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod ganddynt staff sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol er mwyn darparu gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, a all fod yn agored i niwed yn aml.

Nid yw'n iawn mwyach i sefydliadau dybio mai Saesneg yw'r dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau. Wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel arfer, dylai darparwyr dybio y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Mae Mwy na Geiriau yn nodi na ddylai fod angen i siaradwyr Cymraeg ofyn am wasanaeth yn Gymraeg, ond y dylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu yn yr iaith a ddefnyddir gan yr unigolyn fel arfer. Gallai hyn fod yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn y ddwy iaith. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' sydd bellach yn cael ei hyrwyddo ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, fel yr amlinellir yn fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae 'Cynnig Gweithredol' yn golygu y caiff gwasanaeth ei ddarparu yn Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny.



Gweithgaredd 33

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Y Cynnig Rhagweithiol

Beth yw'r Cynnig Rhagweithiol?

Nod Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol oedd sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan hanfodol o ddarpariaeth gofal a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i unigolion y mae eu hangen arnynt. Dyma'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae Cynnig Rhagweithiol yn golygu y caiff gwasanaeth ei ddarparu yn Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny. Mae cyfrifoldeb ar bawb sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion a'u teuluoedd ledled Cymru i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Er enghraifft, rhoi system gweithiwr allweddol ar waith yn sicrhau y caiff aelodau 'a enwir' o staff eu 'paru' â phlant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg neu sicrhau bod arwyddion yn y gwasanaeth yn helpu defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg i ganfod eu ffordd o gwmpas. Hefyd, mae llyfrau, papurau newydd ac adnoddau eraill ar gael, neu gallant fod ar gael, mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg.



Gweithgaredd 34

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Dulliau gweithredu cadarnhaol i leihau arferion cyfyngol

Cyflwyniad



Mae ymddygiadau sy'n herio gwasanaethau yn digwydd am reswm, ac mae'n bosibl mai dyma'r unig ffordd y gall plant a phobl ifanc gyfathrebu. Gall yr ymddygiad hwn ddigwydd am wahanol resymau sy'n benodol i'r plentyn/person ifanc.

Efallai fod angen darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n ymddwyn mewn ffyrdd a allai fod yn heriol, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, gan gynnwys cymorth ymddygiad cadarnhaol a rhyw fath o ymarfer neu ymyriad cyfyngol. Mae'n hollbwysig ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn/person ifanc, yn diwallu anghenion unigolyn ag urddas a pharch ac yn sicrhau cyn lleied â phosibl o risgiau i'r plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal a'r unigolyn sy'n cyflawni'r ymyriad corfforol.

Beth yw 'dulliau gweithredu cadarnhaol'?

Mae'n hanfodol meithrin cydberthnasau da, a dylid gweithredu mewn ffordd gadarnhaol drwy'r amser. Maent yn hanfodol pan fydd plentyn neu berson ifanc dan bwysau; yn ofidus; ag ofn; yn orbryderus neu'n ddig ac mewn perygl o ymddwyn mewn ffordd sy'n heriol i'w ddiogelwch ef neu hi a / neu ddiogelwch eraill.

Mae dulliau gweithredu cadarnhaol yn seiliedig ar egwyddorion gofal plentyn-ganolog:

- dod i adnabod unigolyn
- parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir, a'i ddealltwriaeth:
 - ei hoff bethau a'i gas bethau
 - ei sgiliau a'i allu
 - yr hyn sy'n well ganddo o ran dull cyfathrebu a strwythurau cymorth
- deall effaith ei amgylchedd arno a defnyddio hyn i nodi ffyrdd o gynorthwyo plant/pobl ifanc yn gyson ym mhob agwedd ar y gofal maent yn ei gael.



Mae dulliau gweithredu cadarnhaol yn cynnwys gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc a'i systemau cymorth er mwyn:

- ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae
- lle bo modd, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac ymyrryd ar gam cynnar er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd yn y lle cyntaf
- deall beth sydd angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r plentyn/person ifanc i reoli gofid a dicter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio unrhyw gyfyngiadau.

Beth yw arferion cyfyngol?



Mae arferion cyfyngol yn ystod eang o weithgareddau sy'n cyfyngu ar allu plentyn neu berson ifanc i wneud yr hyn y mae am ei wneud heb ryw fath o ymyriad neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallant fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng, neu os yw unigolyn yn mynd i niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol.

Achosion sylfaenol a all effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc

Beth sy'n dylanwadu ar ymddygiad plentyn neu berson ifanc?

Mae llawer o ffactorau sy'n helpu i esbonio pam mae plant a phobl ifanc yn ymddwyn yn wahanol, hyd yn oed os yw'n ymddangos eu bod yn yr un sefyllfa ac yn cael yr un profiadau, er enghraifft ffactorau personol neu amgylcheddol.

Meddylwch am rai rhesymau y gallai plentyn/person ifanc fod yn llawn cynnwrf neu'n ofidus a allai effeithio ar ei ymddygiad.

Gallai achosion sylfaenol gynnwys:

- poen cronig neu aciwt
- haint neu boen corfforol arall
- colli synhwyrâu
- anaf i'r ymennydd neu gyflwr niwrolegol arall
- anawsterau cyfathrebu
- yr amgylchedd
- ofn a gorbryder
- anhapusrwydd
- diflastod
- unigrwydd
- anghenion sydd heb eu diwallu
- gofynion
- newid
- cyfnodau o bontio
- digwyddiadau arwyddocaol diweddar fel marwolaeth aelod o'r teulu
- digwyddiadau neu brofiadau blaenorol
- camdriniaeth neu drawma
- bwlio
- gofal sy'n rheoli gormod
- anwybyddu.

Dulliau gweithredu cadarnhaol a all gael eu defnyddio i leihau arferion cyfyngol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

Dulliau gweithredu cadarnhaol

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â syndrom, anabledd neu gyflwr penodol, mae'n bwysig deall effaith hynny ar ei ymddygiad yn llawn. Er enghraifft, gall blentyn neu berson ifanc ag awtistiaeth ac anabledd dysgu ymddwyn mewn ffordd y mae aelodau o'i deulu a gweithwyr cymorth yn ei chael hi'n anodd ei deall ac sy'n heriol yn eu barn nhw. Bydd dealltwriaeth well o'r plentyn/person ifanc yn galluogi gweithwyr i fod mewn sefyllfa well i wybod beth i'w wneud a sut i atal ymatebion penodol ar achlysuron eraill.

Mae'n haws deall ymddygiad plentyn neu berson ifanc os oes gan weithwyr ddealltwriaeth well o'i brofiadau. Gall hyn gynnwys ystyried y ffordd mae syndrom, anabledd neu gyflwr penodol wedi effeithio ar ei allu i gyfathrebu, ei ryngweithio cymdeithasol a'i ymwybyddiaeth synhwyraidd.

Yn aml, mae'r hyn sy'n digwydd yn yr amgylchedd o gwmpas y plentyn/person ifanc o dan reolaeth yr unigolion sy'n ei gefnogi. Er enghraifft, os bydd plentyn/person ifanc yn ei chael hi'n anodd bod gyda llawer o blant/pobl ifanc eraill mewn ystafell fach, yna gellir lleihau effaith hyn drwy sicrhau nad yw'r plentyn/person ifanc yn treulio amser mewn lleoedd cyfyng gyda llawer o blant neu bobl ifanc.

Gall problemau cyfathrebu gyfrannu at ymddygiad heriol, felly mae'n bwysig deall y ffordd mae'r plentyn/person ifanc yn cyfathrebu a gweithio i ddeall yr hyn y mae'n ceisio ei ddweud neu ei fynegi yn well.



Gweithgaredd 35

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Newidiadau i fywyd unigolyn o ganlyniad i ddigwyddiad arwyddocaol neu gyfnodau o bontio

Cyflwyniad



Mae'r term 'pontio' yn disgrifio'r broses o newid, cynllunio, paratoi a symud, er enghraifft, o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion, neu o wasanaethau iechyd meddwl plant i wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Proses raddol o newid yw pontio, sy'n rhoi amser i bawb sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd wedi'u paratoi ac yn teimlo'n barod i wneud y newid.

Digwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd neu gyfnodau o bontio

Mae plant a phobl ifanc yn ymateb yn wahanol i newidiadau neu aflonyddwch yn eu trefn ddyddiol, gall rhai fod yn bryderus neu'n ofidus.

Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd:

- newidiadau pwysig a all fod yn gadarnhaol ac yn negyddol ym mywyd plentyn
- newidiadau ac aflonyddwch i arferion
- dechreuad cyflwr sy'n dirywio fel colled synhwyrdd
- newid sydyn yn eu bywydau fel colled a phrofedigaeth
- argyfwng sy'n effeithio arnynt.



Gallai cyfnodau o drawsnewid neu newid gynnwys plant/pobl ifanc yn symud i mewn neu allan o'r ddarpariaeth gwasanaeth, genedigaethau yn y teulu, marwolaethau, priodas eu rhieni, symud rhwng blynyddoedd mewn ysgol neu goleg, symud rhwng sefydliadau addysg, newidiadau ffisegol fel y glasoed, dod yn oedolyn neu ddod yn ofalwr.

Ffactorau sy'n gwneud newidiadau yn gadarnhaol neu'n negyddol

Beth sy'n gallu gwneud newid yn gadarnhaol neu'n negyddol?

Gall newid sy'n deillio o ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd neu gyfnodau o bontio fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Er enghraifft, gall blentyn neu berson ifanc symud i mewn i leoliad preswyl er mwyn diwallu ei newidiadau gofal a chymorth sy'n newid. Gall hyn fod yn gadarnhaol gan y bydd yr unigolyn yn cael y cymorth priodol, ond gellir ystyried bod y newidiadau hyn yn negyddol hefyd am fod yr unigolyn yn colli annibyniaeth, ei gartref a rhywfaint o'i eiddo er mwyn bodloni gofynion rheoliadol penodol, e.e. rheoliadau tân.

Gall cyfnod o bontio fod yn amser i ddathlu, neu'n gyfnod o lawer o bryder a gofid, newid a heriau i blant a phobl ifanc. Mae'n gyfnod pan fydd unigolion yn ystyried ac yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u gyrfa, eu haddysg barhaus, eu bywyd cymdeithasol a ble y byddant yn byw yn y dyfodol. Efallai na fydd yr opsiynau sydd ar gael i blant a phobl ifanc mor hygyrch ag ydynt i oedolion, ac felly mae cynllunio am y dyfodol yn gallu bod yn fwy o sialens.



Gall y cymorth sydd ar waith wneud y newidiadau hyn yn gadarnhaol neu'n negyddol. Er enghraifft, gellir cael gafael ar adnoddau ar gyfer rôl newydd fel gofalwr, neu gall fod mwy o arian ar gael oherwydd swydd newydd neu swydd gyntaf.

Gall y cymorth sydd ar gael yn ystod y newid amrywio'n fawr. Gall dealltwriaeth y plentyn/person ifanc o'r rhesymau dros newid ei helpu drwy gydol y broses.

Sut i helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth a wnaiff eu paratoi am fywyd fel oedolyn

Datblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth

Un o egwyddorion allweddol cefnogi plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer newidiadau yw cyfathrebu. Mae cyfathrebu'n hanfodol er mwyn canfod beth sydd ei angen ar yr unigolyn, eu pryderon a'u hofnau a pha gymorth y maent yn teimlo a fydd o fudd iddynt.

Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo'n fwy parod os oes ganddyn nhw yr holl wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen arnyn nhw a'u bod yn cael cymorth er mwyn iddyn nhw ymgymryd â phrofiadau newydd gydag agwedd gadarnhaol. Mae cymryd amser i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar sail un i un yn bwysig. Gall hyfforddi a mentora ddatblygu sgiliau fel gallu cymryd y cam gyntaf a hefyd gweithio mewn tîm, sy'n sgiliau hanfodol yn y gweithle. Mae gwaith tîm yn hanfodol yn y gweithle gan fod llawer o sefyllfaoedd byddan nhw'n eu profi yn cynnwys timau o unigolion yn helpu ei gilydd i gyrraedd nod. Os bydd unigolyn ifanc yn gweithio'n galed i gyd-dynnu â phawb, byddan nhw ar y trywydd iawn i weithio'n effeithiol mewn tîm.



Bydd ymweld â cholegau neu leoliadau gwaith gyda rhywun neu wirfoddoli ar leoliad yn cefnogi unigolion ifanc i ddatblygu'r sgiliau hanfodol, yr hyder a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol. Mae sgiliau eraill yn cynnwys agwedd gadarnhaol, hunanreolaeth, parodrwydd i ddysgu a gwydnwch.

Effaith eich agwedd a'ch ymddygiad eich hun ar blant a phobl ifanc

Cyflwyniad



Mae gan bob un ohonom greddau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd gwahanol, ond wrth gefnogi plant a phobl ifanc yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n bwysig nad yw'r ffactorau hyn yn effeithio ar yr ymarfer o ganlyniad i agwedd ac ymddygiad personol.

Beth yw credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd?

Ar wahân i wahaniaethau o ran oedran, rhyw a rhywedd, nodweddion corfforol, gallu, profiadau a rhinweddau personol, mae unigolion hefyd yn wahanol i'w gilydd o ran eu deiet, eu credoau crefyddol a'u ffydd, a'u hanghenion a'u dewisiadau cyfathrebu.

Gydol oes, mae credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd yn datblygu. Yn blant, mae unigolion yn ddibynol ar deulu agos a gofalwyr wrth iddynt gyfarwyddo a llywio eu syniadau a'u hymddygiad. Maent hefyd yn annog ac yn gwobrwyo'r rhai sy'n cyd-fynd ag arferion diwylliannol, traddodiadau a disgwyliadau mewn perthynas â moesau a pharch.

Wrth dyfu'n hŷn, daw plant a phobl ifanc i gysylltiad cynyddol â chymdeithas. Bydd dewisiadau, agweddau, gwerthoedd a chredoau'n datblygu o ganlyniad i brofiadau newydd a dylanwad ffactorau fel modelau rôl, grwpiau cyfoedion, addysg, sefydliadau crefyddol a'r cyfryngau. Mae'r rhinweddau personol a ddatblygir gydol oes yn helpu unigolion i ddatblygu eu hunaniaeth a'r ffordd y maent am gael eu gweld. Dyma sy'n gwneud unigolyn fel y mae.



Gweithgaredd 36

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Agwedd ac ymddygiad personol

Mae gweithio gydag amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, fel y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu ffrindiau a'u teuluoedd, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, a dod i'w hadnabod, yn galluogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o feddwl a byw a'r rhesymau dros wahanol gredoau, gwerthoedd ac ymddygiadau. O ganlyniad i hynny, bydd goddefgarwch a pharch tuag at eraill yn datblygu, sy'n bwysig wrth ddiwallu anghenion a bodloni dewisiadau unigolion. Bydd cydnabod a deall gwahaniaethau unigolion yn eu helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ac i wella eu hunan-werth a'u llesiant.



O ganlyniad i hynny, gall gweithwyr ddod yn fwy agored i brofiadau, cyfleoedd a heriau newydd, a gallu meithrin cydberthnasau newydd.

Gweithgaredd 37

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Agwedd ac ymddygiad personol

Er ei bod yn bosibl na fydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cytuno ag agweddau ac ymddygiad y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, nac yn rhannu'r un dewisiadau, mae ymarfer gwaith cynhwysol yn golygu parchu a hyrwyddo:

- yr hawl i ryddid meddwl a chrefydd
- yr hawl i ryddid i fynegi eu credoau fel y dymunant
- yr hawl i ryddid cydwybod, h.y. i werthoedd personol ac ymdeimlad o'r hyn sy'n iawn a'r hyn sy'n anghywir
- parchu dewisiadau personol, eu hyrwyddo ac ymateb iddynt.

Mae ymarfer nad yw'n gynhwysol, er enghraifft peidio â rhoi cyfle i rywun addoli yn unol â'i grefydd neu ddewis beth i'w fwyta neu ei wisgo, yn gyfystyr â gormes. Mae ymddygiad gormesol yn amddifadu unigolion o'u rhyddid, ac mae'n fath o gam-drin.



Gweithgaredd 38

Cwblhewch y gweithgaredd yn yr adran daflenni.

Taflenni

Gweithgaredd 1



Gwyliwch y fideo

(<https://www.youtube.com/watch?v=a2KiTnsv5ZM>)

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i blant/pobl ifanc yr ydym yn eu cefnogi?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 2

Ei roi ar waith - Y Ddeddf a'ch rôl chi

Rydych newydd ddechrau gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Eglurwch brif bwyntiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel petaech yn dweud wrth y plentyn/person ifanc rydych yn ei gynorthwyo.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 3



Gwylwch y fideo

(https://www.youtube.com/watch?v=Uuldq_ftQY8)

- nodwch yr hawliau mae'r Ddeddf yn eu cefnogi ac yn eu hyrwyddo
- ysgrifennwch grynodedeb byr o'r ffordd mae'r Ddeddf yn gwneud hyn.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 4

Ewch i'r ddolen isod a gwnewch nodyn o 4 gofyniad ar gyfer gweithwyr a eglurir yn y Cod.

Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol



Darllen pellach

<https://bit.ly/2L1bpiL>

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 5

Mae Arlo yn 15 oed ac yn byw gyda'i deulu, tydi o heb fynychu'r ysgol dros y 6 wythnos ddiwethaf. Mae rhieni Arlo yn ddibynnol ar alcohol a chyffuriau ac felly'n cael trafferth ei gael i'r ysgol. Mae hyn yn golygu bod Arlo yn hwyr i'r ysgol neu yn achosi cyfnodau hir o absenoldeb. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu galw erbyn hyn.

1. Beth yw'r peth cyntaf mae angen i Arlo gael help gydag ef?

Rhowch ateb yma...

2. Sut y gallai cyngor a chymorth amserol helpu Arlo?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 6

Dylai gweithwyr gofal cymdeithasol gael eu cefnogi a'u hannog i ddilyn Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Pa rai o'r datganiadau isod all helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddilyn Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol?

Cymorth rheolwyr	
Hyfforddiant	
Egwyl ginio hirach	
Cyfarfodydd tîm rheolaidd	
Dim ond gweithio sifft gyda ffrindiau	
Bod yn gyfeillgar iawn gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau	

Gweithgaredd 7

Mae cynllun gofal a chymorth yn disgrifio, mewn ffordd syml a hawdd ei deall, y gwasanaeth a'r cymorth a ddarperir, a dylid ei lunio a chytuno arno ar y cyd â'r plentyn neu'r person ifanc drwy broses cynllunio gofal. Beth ydych chi'n meddwl y dylai cynllun gofal a chefnogaeth ei gynnwys? Meddyliwch am yr hyn yr hoffech chi i bobl wybod amdanoch chi pe bai'n rhaid i chi fynd i ofal. Sut ydych chi'n meddwl y dylai hyn gael ei gwblhau ac ar ba fformat y dylid ei gofnodi?

1. Beth yw'r gwahaniaethau, a pha rai sy'n cynnig mwy o ddewisiadau i unigolion yn eich barn chi?

Rhowch ateb yma...

2. Pa rai sy'n cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 8

Sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol eraill yn sail i dull gweithredu seiliedig ar hawliau?

Edrychwch ar un o'r canlynol a gwnewch nodiadau ar ei effaith ar ddilyn dull gweithredu seiliedig ar hawliau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn eich barn chi.

- Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Y Ddeddf Plant (1989)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990
- Mesur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau
- Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013)

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 9

Gwnewch nodyn o'r holl bethau rydych yn eu gwneud ac y gallech eu gwneud er mwyn rhoi dewis i blant a phobl ifanc gan ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau. Cadwch ddyddiadur i ddangos sut yr ydych yn eu rhoi ar waith.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 10

Meddylwch am bryd y byddai eiriolwr yn cael ei ddefnyddio a beth y gallant ei wneud i helpu rhywun. Gwnewch nodiadau ar eich canfyddiadau.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 11

Mae cwynion neu bryderon yn codi anfodlonrwydd â gwasanaeth. Bydd hyn o fudd i'r unigolion oherwydd gellir tynnu sylw at rywbeth nad oedd gofalwr yn ymwybodol ohono, er mwyn iddo wneud newidiadau yn unol â hynny.

Meddylwch am adeg pan wnaethoch chi gwyno am wasanaeth neu gynnyrch a gawsoch.

- Sut gwnaethoch chi hyn?
- Beth oedd y canlyniad?
- Oeddech chi'n hapus â'r canlyniad?
- Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am sut i ymdrin â chwynion?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 12

Mae dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Beth yw'r effaith bosibl ar blant a phobl ifanc os na ddilynir dulliau gweithredu plentyn-ganolog?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 13

Beth sy'n bwysig i chi? Ydy hyn yn wahanol i'r hyn sy'n bwysig i'ch ffrindiau? Os yw'n wahanol, sut fyddech chi'n teimlo pe baech chi'n cael eich trin yn union yn yr un ffordd a phe na bai eich anghenion a'ch dewisiadau unigol yn cael eu hystyried?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 14

Ymchwiliwch i ddelweddau o gynlluniau gofal a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar y rhyngwyd a'u cymharu.

Beth yw'r gwahaniaethau, a pha rai sy'n cynnig mwy o ddewisiadau i unigolion yn eich barn chi?

Pa rai sy'n cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 15

Pam mae'n bwysig gwybod beth yw hanes, dewisiadau, dymuniadau ac anghenion plentyn neu berson ifanc er mwyn gofalu amdano a'i helpu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 16

Esboniwch sut y gellir addasu'r broses neu'r ddogfennaeth asesu a chynllunio er mwyn cynyddu cyfranogiad gweithredol, cynhwysiant a rheolaeth y plentyn neu'r person ifanc i'r eithaf.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 17

Meddyliwch am unigolyn rydych yn ei adnabod a, heb ddefnyddio enwau na manylion personol, disgrifiwch ei anghenion mewn modd holistaidd.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 18

Meddyliwch am eich teulu, eich ffrindiau a'ch cydweithwyr. Ym mha ffyrdd y maent yn dangos amrywiaeth?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 19

Dychmygwch eich bod yn wahanol yn un o'r ffyrdd sy'n gwneud unigolion yn agored i gael eu trin yn annheg ac yn anghyfiawn. Dychmygwch, er enghraifft, nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, neu eich bod o wlad arall.

Disgrifiwch sut y gallai gwahaniaethu effeithio arnoch chi.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 20

Meddyliwch am gyrsiau hyfforddi rydych chi wedi bod arnynt a'r llyfrau a'r llawlyfrau rydych wedi'u darllen a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer gwella eich arferion gwaith.

Sut y gwnaeth eich ymarfer neu'ch ffordd o feddwl newid o ganlyniad iddynt?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 21

Sut y gall cymryd risgiau fod yn beth cadarnhaol?

Meddyliwch am rai enghreifftiau o hyn.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 22

Beth yw camau sylfaenol y broses o gynnal asesiad risg?

Lluniwch ffurflen asesiad risg syml.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 23

Gan ddefnyddio'r asesiad risg a luniwyd gennych, cynhaliwch asesiad risg byr o berygl a nodir gennych yn eich gweithle neu yn y gymuned. Cofnodwch eich canfyddiadau.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 24

Meddylwch am y cydberthnasau personol rydych wedi'u profi yn ystod eich bywyd.

1. Pam y daeth yr unigolyn yn fwy na chydabod i chi?
2. Pa fath o gydberthnasau personol oedden nhw?
3. Pa rai ohonynt sydd wedi goroesi?
4. Beth all rhai o'r rhesymau fod i'r cydberthnasau yma beidio â goroesi?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 25

Pa un o'r gweithgareddau hyn sy'n cael eu cysidro fel arfer dderbyniol?

Trafod safbwyntiau crefyddol personol gydag plant a phobl ifanc	
Arferion symud a thrin diogel	
Trafod gyda'ch ffrindiau yr hyn yr ydych yn wneud yn eich gwaith	
Cyfeirio plentyn neu berson ifanc at gynghorwr	

Gweithgaredd 26

Meddyliwch am y gwahanol resymau pam rydym yn cyfathrebu a rhestrwch chwech ohonynt.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 27

Mae gweithiwr yn dychwelyd i'w waith ar ôl cymryd gwyliau ac nid oes neb wedi gadael iddo wybod beth sydd wedi digwydd tra ei fod wedi bod i ffwrdd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei drosglwyddo iddo yn sydyn iawn ac mae'n parhau gyda'i ddyletswyddau.

Disgrifiwch ddwy enghraifft o'r ffyrdd y gall cyfathrebu aneffeithiol effeithio ar blant a phobl ifanc.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 28

Pa sgiliau neu ddulliau sydd eu hangen pan yn siarad gyda phlant a phobl ifanc a pham mae'r rhain yn bwysig?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 29

Meddyliwch am y dulliau cyfathrebu gwahanol y gellid eu defnyddio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol.

Pa ddulliau y gellid eu defnyddio?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 30

Meddylwch am adeg pan oeddech ar eich gwyliau neu'n siarad â rhywun nad Cymraeg na Saesneg yw ei iaith gyntaf.

Sut roeddech chi'n teimlo?

Pa newidiadau a wnaethoch i'ch dull cyfathrebu?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 31

Mae gallu Marc i gyfathrebu yn gyfyngedig gan fod ganddo nam ar y clyw.

Pa ddulliau allwch chi eu defnyddio i gyfathrebu â Marc?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 32

Mae angen i chi gwblhau asesiad cychwynnol ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth gennych am y tro cyntaf. Esboniwch 3 ffordd y gallwch gasglu gwybodaeth ynghylch eu hanghenion cyfathrebu.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 33

Rhowch ddau reswm pam ei bod yn bwysig darparu gwasanaethau gan ddefnyddio'r Gymraeg yn eich barn chi.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 34

Sut mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 35

Meddylwch am blentyn neu berson ifanc rydych wedi'i gefnogi yn y gorffennol neu rydych yn ei gefnogi ar hyn o bryd. A allwch nodi unrhyw ffactorau posibl a all gyfrannu at y ffaith ei fod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n anodd i unigolion ei deall a'i rheoli neu a all beri niwed i'r unigolyn ei hun neu i unigolion eraill?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 36

Meddylwch am ddau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc, er enghraifft ysgol a meithrinfa.

1. Ym mha ffyrdd y gallai'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r naill leoliad a'r llall fod yn wahanol i'w gilydd?

Rhowch ateb yma...

2. Pam ei bod yn bwysig bod agwedd ac ymddygiad y gweithwyr eu hunain tuag at gredoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd y plant a'r bobl ifanc yn gadarnhaol?

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 37

1. Meddyliwch am y dylanwadau ar eich datblygiad, o'r gorffennol a'r presennol. Pwy a beth oedden nhw, a phwy a beth ydyn nhw nawr?

Rhowch ateb yma...

2. Sut y byddech yn disgrifio eich hun nawr o ran eich credoau, eich gwerthoedd a'ch dewisiadau?

Rhowch ateb yma...

3. Sut yr hoffech i bobl eraill eich gweld?

Rhowch ateb yma...

4. Pa arferion diwylliannol, traddodiadau a disgwiliadau y mae eich teulu wedi'u trosglwyddo i chi? Pa rai ohonynt rydych wedi rhoi'r gorau iddynt neu eu gwrthod? Meddyliwch am y rhesymau dros hyn.

Rhowch ateb yma...

Gweithgaredd 38

Meddylwch am eich ymarfer a sut y gallech ei wella. Ewch ati i fonitro gwelliannau yn eich ymarfer drwy gadarnhau a'r plant a'r bobl ifanc rydych yn eu cefnogi eich bod yn dangos parch at eu credoau, eu gwerthoedd, eu dewisiadau a'u cefndir diwylliannol. Mewn geiriau eraill, eich bod yn datblygu arferion gwaith cynhwysol, a bod eich agwedd a'ch ymddygiad yn dangos parch at y gwahaniaethau unigol hyn.

Rhowch ateb yma...

Atebion

Gweithgaredd 3

Ymateb awgrymedig:

- diogelu unigolion rhag gwahaniaethu yn y gweithle, a hynny o dan y gyfraith
- darparu diogelwch cyfreithiol mewn cymdeithas ehangach
- cyflwyno un Ddeddf yn lle cyfreithiau gwrthgwahaniaethu blaenorol
- gwneud y gyfraith yn haws ei deall
- cryfhau diogelwch mewn rhai sefyllfaoedd
- diogelu unigolion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Gweithgaredd 4

Ymateb awgrymedig:

- pennu'r safon ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion
- amlinellu'r ymddygiad a'r agweddau a ddisgwylir gan weithwyr
- helpu gweithwyr i ddarparu gofal a chymorth diogel a sicr
- yn cynnwys chwe adran, neu saith adran os yw gweithiwr yn rheoli staff, mae pob adran yn ymwneud ag agweddau allweddol ar rolau gweithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion.

Gweithgaredd 5

Ymateb awgrymedig:

1. Gweithgareddau bob dydd e.e hylendid personol, bwyta ac yfed, cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol, bod yn hapus yn yr ysgol ac adref.
2. Gallai'r gefnogaeth ei helpu i ddal i fyny gyda'r gwaith yn yr ysgol yn ogystal â threfn gyson rhwng y cartref a'r ysgol. Byddai monitro'r absenoldebau o gymorth hefyd.

Gweithgaredd 6

Cymorth rheolwyr	✓
Hyfforddiant	✓
Egwyl ginio hirach	
Cyfarfodydd tîm rheolaidd	✓
Dim ond gweithio sifft gyda ffrindiau	
Bod yn gyfeillgar iawn gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau	

Gweithgaredd 7

1. GIG Templed cynllun gofal – esiampl <https://bit.ly/2HTIZqZ> & GIG Ein safonau gofal craidd <https://bit.ly/2FLWO65>
2. Dylai cynlluniau gofal fod yn hawdd i bawb eu darllen a'u deall. Ni ddylent fod yn rhy gymhleth nac yn llawn termau technegol neu jargon. Dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r pwyntiau allweddol a'u darllen.

Gweithgaredd 8

Ymateb awgrymedig:

Mesur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau – yn nodi darpariaeth mewn perthynas â statws swyddogol y Gymraeg. Sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013) – yn amlinellu'r dull o wella gwasanaethau i'r rhai sydd angen neu sy'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg.

Gweithgaredd 9

Ymateb awgrymedig

- cyfathrebu'n glir
- dysgu beth yw anghenion, dymuniadau a dewisiadau unigolyn
- annog annibyniaeth
- cyfarch yr unigolyn gan ddefnyddio'r enw sydd orau ganddo
- cynnig cymaint o ddewis â phosibl
- rhoi adborth cadarnhaol.

Gweithgaredd 10

Ymateb awgrymedig

Os bydd unigolyn yn ei chael hi'n anodd deall ei ofal a'i gymorth neu'n ei chael hi'n anodd lleisio ei farn, mae unigolion ar gael a all weithredu fel llefarydd ar ei ran. Maent yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei glywed ac yn cael eiriolwr. Gall eiriolwyr helpu unigolyn i wneud y canlynol:

- deall y broses gofal a chymorth
- siarad am ei deimladau ynglŷn â'i ofal
- gwneud penderfyniadau
- herio penderfyniadau ynghylch ei ofal a'i gymorth os nad yw'n cytuno â nhw
- dadlau dros hawliau unigolyn.

Gweithgaredd 12

Ymateb awgrymedig

Nid yw'r plentyn neu berson ifanc yn:

- cael y gofal a'r cymorth sydd eu heisiau a'u hangen arno
- gwneud y dewisiadau y dylai gael ei gynnwys ynddynt
- byw'r bywyd y dylai fod yn ei fyw
- ffynnu, tyfu a datblygu fel y dylai wneud.

Gweithgaredd 14

Ymateb awgrymedig

Chwiliwch am y canlynol:

- canllawiau clir
- iaith glir
- cynnwys yr unigolyn
- penawdau sy'n diwallu anghenion unigolion
- lle i adolygu a diwygio.

Gweithgaredd 15

Ymateb awgrymedig

- er mwyn diwallu anghenion a bodloni dymuniadau a dewisiadau
- er mwyn cydnabod hanes yr unigolyn
- er mwyn nodi gweithgareddau a all fod o ddiddordeb iddo
- er mwyn annog cyfathrebu a rhyngweithio.

Gweithgaredd 16

Ymateb awgrymedig

- terminoleg glir
- defnyddio symbolau/lluniau
- cynnwys yr unigolyn i raddau sy'n briodol i'w allu
- defnyddio dulliau cyfathrebu a ffefrir
- mynediad i leoliadau
- defnyddio cyfieithwyr/dehonglwyr, eiriolwyr.

Gweithgaredd 19

Ymateb awgrymedig

Gallech deimlo'n ddig, dan fygythiad neu'n bryderus, ac efallai y bydd eich hunan-barch a'ch hyder yn lleihau.

Gweithgaredd 20

Ymateb awgrymedig

Roedd yr ymarfer yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys ystyried mwy o agweddau ar ddarparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion a ffyrdd mwy diogel o weithio.

Gweithgaredd 21

Ymateb awgrymedig

Pan fyddwn yn meddwl am gymryd risgiau, byddwn yn meddwl am berygl, ofn ac ansicrwydd. Ond gall cymryd risgiau hefyd arwain at lawer o ganlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, os bydd yn llwyddiant, gallai plentyn neu berson ifanc ag anabledd gael hwb enfawr i'w hyder, ac ymdeimlad o foddhad sy'n llawer mwy na'r risg wreiddiol, neu gall plentyn neu berson ifanc feithrin sgiliau nad oedd yn ymwybodol ei fod yn meddu arnynt.

Gweithgaredd 24

Ymateb awgrymedig

1. Gallai hyn fod am eich bod wedi dod yn ffrindiau neu oherwydd newid i'r gydberthynas oherwydd gwaith, cymdeithasu.
2. Ffrindiau, cymdogion, cwsmeriaid.
3. Pob un ohonynt, rhai ohonynt neu ddim un ohonynt o bosibl.
4. Symud i ffwrdd, newid diddordebau, problemau.

Gweithgaredd 25

Trafod safbwyntiau crefyddol personol gyda phlant a phobl ifanc	
Arferion symud a thrin diogel	✓
Trafod gyda'ch ffrindiau yr hyn yr ydych yn wneud yn eich gwaith	
Cyfeirio plentyn neu berson ifanc at gynghorwr	✓

Gweithgaredd 26

Ymatebion awgrymedig:

- i ryngweithio
- i fynegi syniadau a theimladau
- i fynegi poen
- i fynegi hapusrwydd/tristwch
- i wneud ffrindiau
- i rannu safbwyntiau.

Gweithgaredd 27

Ymatebion awgrymedig:

- efallai na chaiff anghenion eu nodi na'u diwallu
- gall gwallau ddigwydd wrth roi'r driniaeth neu ddarparu'r gwasanaeth os nad yw'r wybodaeth yn gywir
- gall arwain at gamddealltwriaeth, ddiffyg hyder, y gofal neu driniaeth anghywir yn cael ei gynnig
- gwybodaeth anghywir neu wallus yn cael ei rannu, gan arwain at bryder a straen.

Gweithgaredd 28

Ymatebion awgrymedig:

- sgiliau gwranddo
- cyswllt llygaid
- amser
- cwestiynu
- gwranddo gweithredol.

Gweithgaredd 29

Ymatebion awgrymedig:

Ysgrifenedig, llafar, lluniau, fideos, Braille, cyfrifiadur, gwrthrychau cyfeirio e.e. pwyntio at debot er mwyn cyfleu yr hoffech gael paned.

Gweithgaredd 31

Ymatebion awgrymedig:

Siaradwch yn glir, yn araf, yn amlwg, ond yn naturiol, heb weiddi neu orliwio symudiad y geg, wynebwcw Marc yn uniongyrchol, dywedwch enw Marc yn gyntaf i gael ei sylw, cadwch eich dwylo oddi wrth eich wyneb fel y gall Marc weld yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

Gweithgaredd 32

Ymatebion awgrymedig:

Gofyn i'r plentyn neu'r person ifanc, gofyn i'w rhieni/gofalwyr, ei gwyllo yn rhyngweithio gydag eraill, adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Gweithgaredd 33

Ymatebion awgrymedig:

- i hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad
- i hyrwyddo annibyniaeth
- i gydnabod iaith a diwylliant
- i sicrhau bod pawb yn deall gwasanaethau
- i ddiwallu anghenion y siaradwyr Cymraeg.

Gweithgaredd 34

Ymatebion awgrymedig:

- darparu gwell canlyniadau
- yn cael ei arwain gan y defnyddiwr
- yn cael ei arwain gan yr anghenion
- cynhwysiant
- darparu cyfrwng Cymraeg heb orfod gofyn amdano.

Gweithgaredd 35

Ymatebion awgrymedig:

- dull cyfathrebu
- rhwystredigaeth
- gorbryder
- poen
- anghenion heb eu cwrdd
- colled
- trawsnewidiad.

Gweithgaredd 36

Ymatebion awgrymedig:

1. Bydd eu hanghenion, eu galluoedd, eu dymuniadau a'u dewisiadau yn wahanol.
2. Er mwyn cefnogi rhyngweithio cadarnhaol, darparu gwasanaeth o ansawdd da ac annog unigolion i gyfathrebu a rhyngweithio.
Mae hefyd yn bwysig i wneud iddynt deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i roi iddynt synnwyr o werth ac ymberthyn.

Gweithgaredd 37

Ymatebion awgrymedig:

1. Gallai hyn gynnwys teulu, ffrindiau, gofalwyr, cydweithwyr, ffrindiau ysgol; gallai'r un pethau fod yr un peth nawr neu efallai bod eich rhwydwaith cymdeithasol wedi newid ac mae bellach yn cynnwys pobl â gwahanol safbwyntiau a delfrydau.
2. Gall credoau, gwerthoedd a dewisiadau fod yn fwy penodol wrth i ni dyfu i fyny ac efallai y bydd ein teulu, ein ffrindiau ac ati yn dylanwadu arnynt.
3. Yn aml hoffem i eraill ein gweld fel rhai sy'n gofalu, gyda gwerthoedd da a systemau cred.
4. Gall hyn gynnwys arferion crefyddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol, traddodiadau a disgwyliadau, er enghraifft. Efallai na fyddwch am fynychu seremonïau crefyddol mwyach, er enghraifft. Neu efallai y byddwch chi'n dewis peidio â bwyta cig mwyach, ond mae'ch teulu'n gwneud hynny.

Gweithgaredd 38

Ymatebion awgrymedig:

Gallai newidiadau neu welliannau gynnwys cynyddu eich gwybodaeth am agweddau penodol ar ddarparu gwasanaeth. Gallai hyn fod yn ddiabetes, awtistiaeth neu agweddau diwylliannol. Gallai unigolion roi adborth eich bod gennych ddealltwriaeth, neu'n fwy ymwybodol o'u hanghenion unigol.